



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 2574 (Cy.214)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwarchod Plant a
Gofal Dydd (Cymru) 2010**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu gydag addasiadau y Rheoliadau canlynol—

- Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd i blant ("Rheoliadau 2002");
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002; a
- Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004"),

sydd i gyd wedi eu gwneud o dan bwerau yn Rhan XA o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989 Act"). Diddymir y pwerau yn Rhan XA o Ddeddf 1989 mewn Gorchymyn ar wahân, sydd hefyd yn gwneud arbedion a darpariaeth drosiannol.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Ran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur"); mae'r pwerau yn Rhan 2 o'r Mesur yn cydweddu'n fras â'r pwerau yn Rhan XA o Ddeddf 1989. Yn Rhan 2 o'r Mesur darperir ar gyfer cofrestru ac arolygu gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yng Nghymru gan Weinidogion Cymru, a chynhwysir pwerau hefyd i wneud rheoliadau i lywodraethu gweithgareddau personau o'r fath. Mae adran 30 o'r Mesur yn cynnwys pŵer newydd sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn galluogi parhau i ddarparu gofal dydd mewn

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 2574 (W.214)

**SOCIAL CARE,
WALES**

**CHILDREN AND YOUNG PERSONS,
WALES**

**The Child Minding and Day Care
(Wales) Regulations 2010**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations revoke and re-enact with modifications the following Regulations—

- the Registration of Social Care and Independent Health Care (Wales) Regulations 2002, in so far as they relate to child minders and the providers of day care for children ("the 2002 Regulations");
- the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2002; and
- the Suspension of Day Care Providers and Child Minders (Wales) Regulations 2004 ("the 2004 Regulations"),

which are all made under powers under Part XA of the Children Act 1989 ("the 1989 Act"). The powers under Part XA of the 1989 Act are repealed in a separate Order, which also makes savings and transitional provision.

These Regulations are made under Part 2 of the Children and Families (Wales) Measure 2010 ("the Measure"); the powers in Part 2 of the Measure are broadly in analogous terms to those within Part XA of the 1989 Act. Part 2 of the Measure provides for the registration and inspection of child minders and day care providers in Wales by the Welsh Ministers and it also contains powers enabling the Welsh Ministers to make regulations governing the activities of such persons. Section 30 of the Measure contains a new power that enables the Welsh Ministers to make

amgylchiadau rhagnodedig ar ôl marwolaeth y person cofrestredig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bersonau sy'n gweithredu fel gwarchodwyr plant neu'n darparu gofal dydd i blant o dan wyth mlwydd oed ("darparwyr gofal dydd") mewn mangreoedd yng Nghymru.

Yn rheoliad 3 ac Atodlen 1 pennir y gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i gais am gofrestrriad gael ei ganiatáu gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth ynghylch addasrwydd y darparydd a phersonau eraill a fydd yn gofalu am blant perthnasol, neu mewn cysylltiad â phlant o'r fath yn rheolaidd. Yn rheoliad 4 ac Atodlen 2, rhagnodir yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ynghyd â chais am gofrestrriad. Mae'r gofynion ar gyfer gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yn wahanol.

Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau 2002 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chofrestru gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd; ac y maent hefyd yn darparu ar gyfer cofrestru ac arolygu amrediad eang o sefydliadau ac asiantaethau sy'n ymwneud â darparu gofal mewn amrywiaeth o leoliadau. Diwygir y Rheoliadau hynny gan Ran 7 ac Atodlenni 5 a 6, i adlewyrchu'r ffaith bod y ddarpariaeth ar gyfer cofrestru gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd wedi ei chynnwys bellach yn y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 3 (rheoliadau 6 i 11) yn gwneud darpariaeth ynghylch addasrwydd personau i weithredu fel gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd, ac yn gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r materion a bennir yn Atodlen 1. Os yw darparydd gofal dydd yn sefydliad rhaid iddo enwebu unigolyn cyfrifol, y bydd yr wybodaeth rhagnodedig ar gael mewn perthynas ag ef. Mae rheoliad 9 yn gosod gofynion cyffredinol ynglŷn â darparu gofal gan bersonau cofrestredig ac ynglŷn â hyfforddiant. Mae rheoliad 10 yn cynnwys gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru ynghylch collfarnu person am dramgwyddau troseddol a'i gyhuddo o rai tramgwyddau penodedig. Mae rheoliad 11 yn rhagnodi amgylchiadau pan ganiateir i gynrychiolwyr personol barhau i ddarparu gofal dydd yn dilyn marwolaeth y person cofrestredig.

Mae Rhan 4 (rheoliadau 12 i 19) yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gofynion cyffredinol sy'n gymwys i bersonau a gofrestrir o dan Ran 2 o'r Mesur, ac ar gyfer gorfodi. Yn benodol, mae rheoliadau 12 ac 14 yn gwneud yn ofynnol bod personau cofrestredig yn cydymffurfio â gofynion Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn ac yn rhoi sylw i safonau gofynnol cenedlaethol, ac yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur ac mewn achosion cyfreithiol o dan y Rhan honno, gymryd i ystyriaeth, yn eu trefn, bod person cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â Rhan 5 neu wedi peidio â rhoi sylw i'r safonau perthnasol. Mae rheoliad 15 yn

regulations which will enable the carrying on of the provision of day care in prescribed circumstances upon the death of the registered person.

These Regulations apply to persons who act as child minders or who provide day care for children under the age of eight ("day care providers") on premises situated in Wales.

Regulation 3 and Schedule 1 prescribe the requirements that must be satisfied for an application for registration to be granted by the Welsh Ministers. These include provision regarding the suitability of the provider and other persons who will be looking after or in regular contact with relevant children. Regulation 4 and Schedule 2 prescribe the information that must be included with an application for registration. Different requirements apply in respect of child minders and day care providers.

The 2002 Regulations currently make provision in relation to the registration of child minders and day care providers; they also make provision for the registration and inspection of a wide range of establishments and agencies involved in the provision of care in a range of settings. These Regulations are amended by Part 7 and Schedules 5 and 6 to reflect that provision for the registration of child minders and day care providers is now contained within these Regulations.

Part 3 (regulations 6 to 11) makes provision about the suitability of persons acting as child minders and day care providers and requires information to be available in relation to the matters specified in Schedule 1. Where a day care provider is an organisation it must nominate a responsible individual in respect of whom the prescribed information must be available. Regulation 9 imposes general requirements about the provision of care by registered persons and as to training. Regulation 10 contains a requirement for the Welsh Ministers to be notified about a person's conviction of criminal offences and being charged with certain specified offences. Regulation 11 prescribes the circumstances in which personal representatives may carry on the provision of day care upon the death of the registered person.

Part 4 (regulations 12 to 19) makes provision for the general requirements that apply to persons registered under Part 2 of the Measure and for enforcement. In particular, regulations 12 and 14 require registered persons to comply with the requirements of Part 5 of these Regulations and to have regard to national minimum standards and provide respectively that any allegation that a registered person has failed to comply with the requirements of Part 5 or has failed to have regard to the relevant standards may be taken into account by the Welsh Ministers in the exercise of their functions under Part 2 of the Measure and in proceedings under that Part. Regulation 15 provides

darparu ar gyfer llunio, gan bersonau cofrestredig, datganiad o ddiben a fydd yn cynnwys nodau ac amcanion a materion perthnasol eraill ynglŷn â'r gwasanaeth sydd i'w ddarparu i blant o dan ofal y person cofrestredig. Mae rheoliad 19 yn darparu ar gyfer tramgwyddau am fynd yn groes i, neu beidio â chydymffurfio â Rhan 5.

Mae Rhan 5 (rheoliadau 20 i 38) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â gweithgareddau personau a gofrestrir o dan Ran 2 o'r Mesur. Mae rheoliadau 20 i 26 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â lles a datblygiad plant perthnasol sydd o dan ofal personau cofrestredig ac, yn benodol, ynglŷn â hyrwyddo lles plant o'r fath, darparu bwyd a darparu a gweithredu polisiau ar amddiffyn plant a rheoli ymddygiad.

Mae rheoliadau 27 i 29 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â niferoedd, cymwysterau, profiad ac addasrwydd y rhai sy'n gweithio i bersonau cofrestredig, gan gynnwys darpariaeth ynglŷn â'r wybodaeth sy'n ofynnol ynglŷn â gweithwyr, cyn y cânt weithio i warchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd.

Mae rheoliadau 30 a 31 yn darparu ar gyfer cadw cofnodion a darparu gwybodaeth, i rieni plant perthnasol y gofelir amdanynt gan warchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd, ac i Weinidogion Cymru.

Mae rheoliadau 32 i 36 yn gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi a dilyn gweithdrefn gwynion gan bersonau cofrestredig.

Mae rheoliadau 37 a 38 yn gwneud darpariaeth ynghylch addasrwydd mangreoedd lle y darperir gofal, y cyfarpar a'r cyfleusterau a ddarperir ar y mangreoedd hynny ac ynglŷn â rhagofalon tân.

Yn Rhan 6, pennir o dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru atal cofrestriad person dros dro, a darperir ar gyfer hawl apelio i Dribiwnlys Haen Gyntaf (a sefydlir yn unol â Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007).

Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu ar gyfer gwneud cais gan berson cofrestredig am atal ei gofrestrriad dros dro yn wirfoddol, drwy roi hysbysiad i Weinidogion Cymru; nid oes hawl apelio i Dribiwnlys Haen Gyntaf os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod gweithredu ar ôl cael hysbysiad o ataliad gwirfoddol dros dro.

Mae Rhan 7 yn darparu ar gyfer diwygio, dirymu ac gwneud arbedion. Mae rheoliad 47 ac Atodlen 5 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Rheoliadau 2002. Mae rheoliad 48 ac Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth sy'n dirymu rheoliadau penodedig ac y mae rheoliad 49 yn darparu ar gyfer arbedion.

for a statement of purpose to be compiled by registered persons consisting of the aims and objectives and other relevant matters about the service to be provided for children under the care of the registered person. Regulation 19 provides for offences for contravention of or non-compliance with Part 5.

Part 5 (regulations 20 to 38) makes provision about the activities of persons registered under Part 2 of the Measure. Regulations 20 to 26 make provision about the welfare and development of relevant children under the care of registered persons and in particular, about the promotion of the welfare of such children, the provision of food and the provision and implementation of child protection and behaviour management policies.

Regulations 27 to 29 make provision about the numbers, qualifications, experience and suitability of those working for registered persons including provision about the information that is required in relation to workers before they may work for child minders or day care providers.

Regulations 30 and 31 provide for the keeping of records and the provision of information to parents of relevant children under the care of child minders or day care providers and to the Welsh Ministers.

Regulations 32 to 36 make provision for a complaints procedure to be prepared and followed by registered persons.

Regulations 37 and 38 make provision about the fitness of premises on which care is provided, equipment and facilities provided at the premises and about fire precautions.

Part 6 sets out the circumstances in which a person's registration may be suspended by the Welsh Ministers and provides for a right of appeal to a First-tier Tribunal (established in accordance with the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007).

This Part also makes provision for the registered person to give notice to the Welsh Ministers requesting the voluntary suspension of their registration; there is no right of appeal to a First-tier Tribunal in the event that the Welsh Ministers refuse to take action upon receipt of a voluntary suspension notice.

Part 7 contains provision for amendment, revocation and savings. Regulation 47 and Schedule 5 make consequential amendments to the 2002 Regulations. Regulation 48 and Schedule 6 make provision for the revocation of specified regulations and regulation 49 contains savings provision.

2010 Rhif 2574 (Cy.214)

2010 No. 2574 (W.214)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**SOCIAL CARE,
WALES**

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG PERSONS,
WALES**

**Rheoliadau Gwarchod Plant a
Gofal Dydd (Cymru) 2010**

**The Child Minding and Day Care
(Wales) Regulations 2010**

Gwnaed 20 Hydref 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 22 Hydref 2010
Yn dod i rym 1 Ebrill 2011

Made 20 October 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 22 October 2010
Coming into force 1 April 2011

CYNNWYS

CONTENTS

RHAN 1

PART 1

RHAGARWEINIOL

INTRODUCTORY

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

1. Title, commencement and application
2. Interpretation

RHAN 2

PART 2

CAIS I GOFRESTRU O DAN RAN 2 O'R
MESUR

APPLICATION FOR REGISTRATION UNDER
PART 2 OF THE MEASURE

3. Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru
4. Gwybodaeth a dogfennau sydd i'w cyflwyno ynghyd â chais i gofrestru
5. Tystysgrif gofrestru

3. Prescribed requirements for registration
4. Information and documentation to accompany application for registration
5. Certificate of registration

RHAN 3

PART 3

PERSONAU COFRESTREDIG

REGISTERED PERSONS

6. Y person cofrestredig: ei addasrwydd
7. Penodi person â chyfrifoldeb
8. Y person â chyfrifoldeb: ei addasrwydd
9. Y person cofrestredig: gofynion cyffredinol
10. Hysbysu am dramgwyddau
11. Marwolaeth person cofrestredig

6. Registered person: suitability
7. Appointment of a person in charge
8. Person in charge: suitability
9. Registered person: general requirements
10. Notification of offences
11. Death of registered person

RHAN 4

GOFYNIION CYFFREDINOL A GORFODI

12. Gofyniad i gydymffurfio â rheoliadau
13. Cydymffurfio â rheoliadau – mwy nag un person cofrestredig
14. Safonau gofynnol cenedlaethol
15. Datganid o ddiben
16. Adolygu ansawdd y gofal
17. Aseu'r gwasanaeth
18. Hysbysiad i gydymffurfio
19. Tramgwyddau

RHAN 5

GWEITHGAREDDAU PERSONAU A GOFRESTRIR O DAN RAN 2 O'R MESUR

20. Diogelu a hyrwyddo lles
21. Y bwyd a ddarperir i'r plant
22. Trefniadau ar gyfer amddiffyn plant
23. Rheoli ymddygiad, atal a disgyblu

24. Anghenion iechyd plant
25. Peryglon a diogelwch
26. Defnyddio a storio meddyginiaethau
27. Staffio
28. Addasrwydd gweithwyr
29. Cyflogi staff
30. Cadw cofnodion
31. Darparu gwybodaeth
32. Cwynion
33. Ymdrin â chwynion
34. Datrys yn lleol
35. Ystyriaeth ffurfiol
36. Cwynion sy'n destun ystyriaeth gydamserol

37. Addasrwydd y fangre
38. Rhagofalon tân

RHAN 6

ATAL COFRESTRriad PERSON DROS DRO O DAN RAN 2 O'R MESUR

39. Dehongli
40. Y pŵer i atal cofrestrriad dros dro
41. Cyfnod yr atal dros dro
42. Yr hysbysiad o'r ataliad dros dro, etc
43. Darpariaethau'r hysbysiad
44. Diddymu'r ataliad dros dro
45. Hawliau i apelio
46. Atal dros dro yn wirfoddol

PART 4

GENERAL REQUIREMENTS AND ENFORCEMENT

12. Requirement to comply with Regulations
13. Compliance with Regulations – more than one registered person
14. National minimum standards
15. Statement of purpose
16. Review of quality of care
17. Assessment of service
18. Compliance notification
19. Offences

PART 5

ACTIVITIES OF PERSONS REGISTERED UNDER PART 2 OF THE MEASURE

20. Safeguarding and promotion of welfare
21. Food provided for children
22. Arrangements for the protection of children
23. Behaviour management, discipline and restraint
24. Health needs of children
25. Hazards and safety
26. Use and storage of medicines
27. Staffing
28. Suitability of workers
29. Employment of staff
30. Keeping of records
31. Provision of information
32. Complaints
33. Handling complaints
34. Local resolution
35. Formal consideration
36. Complaints subject to concurrent consideration
37. Fitness of premises
38. Fire precautions

PART 6

SUSPENSION OF A PERSON'S REGISTRATION UNDER PART 2 OF THE MEASURE

39. Interpretation
40. Power to suspend registration
41. Period of suspension
42. Notification of suspension, etc
43. Notice provisions
44. Lifting of suspension
45. Rights of appeal
46. Voluntary Suspension

RHAN 7

DIWYGIO, DIRYMU AC ARBED

- 47. Diwygio Rheoliadau 2002
- 48. Dirymu
- 49. Arbed

YR ATODLENNI

- ATODLEN 1 – Y gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur
- ATODLEN 2 – Gwybodaeth a dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru o dan Ran 2 o'r Mesur
- ATODLEN 3 – Y cofnodion sydd i'w cynnal
- ATODLEN 4 – Digwyddiadau y mae'n ofynnol hysbysu Gweinidogion Cymru yn eu cylch
- ATODLEN 5 – Diwygio Rheoliadau 2002
- ATODLEN 6 – Dirymadau

PART 7

AMENDMENT, REVOCATION AND SAVING

- 47. Amendment of the 2002 Regulations
- 48. Revocation
- 49. Saving

SCHEDULES

- SCHEDULE 1 – Prescribed requirements for registration under Part 2 of the Measure
- SCHEDULE 2 – Information and documentation required for registration under Part 2 of the Measure
- SCHEDULE 3 – Records to be maintained
- SCHEDULE 4 – Events to be notified to the Welsh Ministers
- SCHEDULE 5 – Amendment of the 2002 Regulations
- SCHEDULE 6 – Revocations

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 24(2) a (3), 25, 26(2) a (3), 27, 28(3), 30, 32(1) – (4), 56 a 74(2) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(1), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 24(2) and (3), 25, 26(2) and (3), 27, 28(3), 30, 32(1) – (4), 56 and 74(2) of the Children and Families (Wales) Measure 2010(1), make the following Regulations:

RHAN 1

RHAGARWEINIOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal dydd (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.–(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ADA" ("*ISA*") yw Awdurdod Diogelu Annibynnol(2);

PART 1

INTRODUCTORY

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Regulations is the Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010 and they come into force on 1 April 2011.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2.–(1) In these Regulations—

"the 2002 Regulations" ("*Rheoliadau 2002*") means the Registration of Social Care and

(1) 2010 mccc 1 ("y Mesur"). *Gweler* adran 71 o'r Mesur am y diffiniadau o "rhagnodi" a "rheoliadau".

(2) Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol yw enw gweithredol y Bwrdd Gwahardd Annibynnol, sef corff cyhoeddus anadrannol a sefydlwyd yn unol â Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (2006 p.47).

(1) 2010 nawm 1 ("the Measure"). *See* section 71 of the Measure for the definitions of "prescribed" and "regulations".

ystyr "ceisydd" ("*applicant*") yw person sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru i'w gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd yn unol â Rhan 2;

ystyr "darpariaeth chwarae mynediad agored" ("*open access play provision*") yw darpariaeth o ofal dydd pan nad yw'n ofynnol—

- (a) trefnu ymlaen llaw gyda'r person cofrestredig i ddarparu gofal o'r fath; neu
- (b) bod y plant yn cael eu hebrwng gan riant neu berson cyfrifol arall i'r fangre berthnasol ac oddi yno;

mae i "darparu gofal dydd i blant" ("*provides day care for children*") yr ystyr sydd i'r ymadrodd yn adran 19 o'r Mesur(1);

ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad a lunnir yn unol â rheoliad 15(1);

ystyr "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym;

ystyr "mangre berthnasol" ("*relevant premises*") yw mangre lle y mae person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant, neu, yn ôl fel y digwydd, mangre lle y darperir gofal dydd gan berson cofrestredig;

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;

ystyr "person â chyfrifoldeb" ("*person in charge*",) mewn perthynas â gofal dydd, yw'r unigolyn a benodir gan y person cofrestredig i ymgymryd â'r cyfrifoldeb beunyddiol llawn am ddarparu gofal dydd yn y fangre;

ystyr "person cofrestredig" ("*registered person*") yw person a gofrestrwyd o dan Ran 2 o'r Mesur fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd;

ystyr "plentyn perthnasol" ("*relevant child*") yw plentyn y mae person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant mewn perthynas ag ef, neu, yn ôl fel y digwydd, plentyn y mae person cofrestredig yn darparu gofal dydd iddo;

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002(2);

Independent Health Care (Wales) Regulations 2002(1);

"the 2004 Regulations" ("*Rheoliadau 2004*") means the Suspension of Day Care Providers and Child Minders (Wales) Regulations 2004(2);

"the Measure" ("*y Mesur*") means the Children and Families (Wales) Measure 2010;

"acts as a child minder" ("*yn gweithredu fel gwarchodwr plant*") has the same meaning as in section 19 of the Measure(3);

"applicant" ("*ceisydd*") means a person who applies to the Welsh Ministers for registration as a child minder or a day care provider in accordance with Part 2;

"appropriate office" ("*swyddfa briodol*") means—

- (a) if an office has been specified under paragraph (2) in relation to any premises, that office;
- (b) in any other case, any office controlled by the Welsh Ministers;

"child protection enquiries" ("*ymholiadau amddiffyn plant*") means any enquiries carried out by a local authority in the exercise of any of its functions conferred by or under the Children Act 1989(4) relating to the protection of children;

"disqualified" ("*wedi ei anghymhwysu*") means that—

- (a) a person is disqualified from registration as a child minder or provider of day care under Part 2 of the Measure in accordance with the Child Minding and Day Care (Disqualification) (Wales) Regulations 2010(5); or
- (b) a person is a member of the same household or is employed in the same household as a person who is disqualified in accordance with paragraph (a);

"enhanced criminal record certificate" ("*tystysgrif cofnod troseddol fanylach*") means an enhanced criminal record certificate issued under section 113B of the Police Act 1997(6), which includes suitability information relating to children (within the meaning of section 113BA(2) of that Act), in respect of which less than three years have elapsed since it was issued;

(1) Mae adran 19(4) o'r Mesur yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i ddarparu drwy orchymyn yr amgylchiadau pan nad yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur. *Gweler* Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

(2) O.S. 2002/919 (Cy.107); gwnaed diwygiad perthnasol gan OS 2009/3265 (Cy.286).

(1) S.I. 2002/919 (W.107); S.I. 2009/3265 (W.286) is a relevant amending instrument.

(2) S.I. 2004/3282 (W.285).

(3) Section 19(4) of the Measure gives the Welsh Ministers power to provide by order the circumstances in which a person is not acting as a child minder for the purposes of Part 2 of the Measure. *See* the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) Order 2010.

(4) 1989 c.41.

(5) S.I. 2010/1703 (W.163).

(6) 1997 c.50.

ystyr "Rheoliadau 2004" ("*the 2004 Regulations*") yw Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004(1);

ystyr "safonau gofynnol cenedlaethol" ("*national minimum standards*") yw'r safonau a bennir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 30(03) o'r Mesur(2);

ystyr "sefydliad" ("*organisation*") yw corff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforaethol;

ystyr "swyddfa briodol" ("*appropriate office*") yw—
(a) os oes swyddfa wedi ei phennu o dan baragraff (2) mewn perthynas ag unrhyw fangre, y swyddfa honno;
(b) mewn unrhyw achos arall, unrhyw swyddfa a reolir gan Weinidogion Cymru;

mae i "Tribiwnlys Haen Cyntaf" ("*First-tier Tribunal*") yr ystyr sydd i "First-tier Tribunal" yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(3);

ystyr "tystysgrif cofnod troseddol fanylach" ("*enhanced criminal record certificate*") yw tystysgrif cofnod troseddol fanylach a ddyroddwyd o dan adran 113B o Ddeddf yr Heddlu 1997(4), sy'n cynnwys gwybodaeth am addasrwydd mewn cysylltiad â phlant (o fewn ystyr adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno), ac y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio er pan ddyroddwyd y cyfryw;

ystyr "unigolyn cyfrifol" ("*responsible individual*"), mewn perthynas â darparu gofal dydd gan sefydliad—

- (a) sy'n gorff corfforaethol yw—
(i) cyfarwyddwr;
(ii) rheolwr;
(iii) ysgrifennydd; neu
(iv) swyddog arall;

neu

- (b) sy'n gymdeithas anghorfforaethol, yw—
(i) swyddog; neu
(ii) aelod,

"First-tier Tribunal" ("*Tribiwnlys Haen Cyntaf*") has the same meaning as in the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007(1);

"ISA" ("*ADA*") means the Independent Safeguarding Authority(2);

"national minimum standards" ("*safonau gofynnol cenedlaethol*") means the standards set out in the National Minimum Standards for Regulated Child Care published by the Welsh Ministers in accordance with section 30(3) of the Measure (3);

"open access play provision" ("*darpariaeth chwarae mynediad agored*") means the provision of day care that does not require—

- (a) a prior arrangement with the registered person to provide such care; or
(b) that children are escorted by a parent or other responsible person to and from the relevant premises;

"organisation" ("*sefydliad*") means a body corporate or an unincorporated association;

"person in charge" ("*person â chyfrifoldeb*") means in relation to day care, the individual appointed by the registered person as the person to be in full day to day charge of the provision of day care on the premises;

"provides day care for children" ("*Darparu gofal dydd i blant*") has the same meaning as in section 19 of the Measure(4);

"registered person" ("*person cofrestredig*") means a person registered under Part 2 of the Measure as a child minder or a provider of day care;

"relevant child" ("*plentyn perthnasol*") means a child in relation to whom a registered person acts as child minder or, as the case may be, to whom day care is provided by a registered person;

"relevant date" ("*dyddiad perthnasol*") means the date upon which these Regulations come into force;

"relevant premises" ("*mangre perthnasol*") means premises on which a registered person acts a child minder or, as the case may be, day care is provided by a registered person;

(1) O.S. 2004/3282 (Cy.285).

(2) Mae copïau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(3) 2007 p.15.

(4) 1997 p.50.

(1) 2007 c.15.

(2) The Independent Safeguarding Authority is the operational name the Independent Barring Board, it is a non-departmental public body established in accordance with the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 (2006 c.47).

(3) Copies of the National Minimum Standards for Regulated Child Care may be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

(4) Section 19(4) of the Measure gives the Welsh Ministers power to provide by order the circumstances in which a person is not acting as a child minder for the purposes of Part 2 of the Measure. See the Child Minding and Day Care Exceptions (Wales) Order 2010.

o'r sefydliad hwnnw sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth o ofal dydd;

ystyr "wedi ei anghymhwysu" ("*disqualified*") yw—

- (a) bod person wedi ei anghymhwysu rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd o dan Ran 2 o'r Mesur, yn unol â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymhwysu) (Cymru) 2010 (1); neu
- (b) bod person yn aelod o'r un aelwyd neu'n gyflogedig yn yr un aelwyd â pherson a anghymhwyswyd yn unol â pharagraff (a);

ystyr "ymholiadau amddiffyn plant" ("*child protection enquiries*") yw unrhyw ymholiadau a gyflawnir gan awdurdod lleol wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau a roddwyd gan neu o dan Ddeddf Plant 1989(2) mewn cysylltiad ag amddiffyn plant;

mae i "yn gweithredu fel gwarchodwr plant" ("*acts as a child minder*") yr ystyr sydd i'r ymadrodd yn adran 19 o'r Mesur(3).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu swyddfa a reolir ganddynt hwy fel y swyddfa briodol mewn perthynas â mangre berthnasol a leolir mewn ardal benodol yng Nghymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'n ymddangos bod bwriad i'r gwrthwyneb, mae cyfeiriadau at gyflogi person yn cynnwys cyflogi person pa un ai am dâl neu hebddo, o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau, neu rywfodd heblaw dan gontract, ac yn cynnwys caniatáu i berson weithio fel gwirfoddolwr, a rhaid dehongli cyfeiriadau at berson a gyflogir yn unol â hynny.

RHAN 2

CAIS I GOFRESTRU O DAN RAN 2 O'R MESUR

Gofynion rhagnodedig ar gyfer cofrestru

3.–(1) Rhaid i geisydd am gofrestriad fel gwarchodwr plant—

- (a) bodloni'r gofynion a ragnodir yn Rhan 1 o Atodlen 1, sy'n cynnwys y gofynion a ragnodir at ddibenion adran 24(3)(b) o'r Mesur (*ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant*); a

(1) O.S. 2010/1703 (Cy.163).

(2) 1989 p.41.

(3) Mae adran 19(4) o'r Mesur yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i ddarparu drwy orchymyn yr amgylchiadau pan nad yw person yn gweithredu fel gwarchodwr plant at ddibenion Rhan 2 o'r Mesur. *Gweler* Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010.

"responsible individual" ("*unigolyn cyfrifol*") means, in relation to the provision of day care by an organisation, which is—

- (a) a body corporate—
 - (i) a director;
 - (ii) a manager;
 - (iii) a secretary; or
 - (iv) other officer;

or

- (b) an unincorporated association—
 - (i) an officer; or
 - (ii) a member of the governing body,

of that organisation, who is responsible for the supervision of the provision of day care;

"statement of purpose" ("*datganiad o ddiben*") means the statement compiled in accordance with regulation 15(1).

(2) The Welsh Ministers may specify an office controlled by them as the appropriate office in relation to relevant premises situated in a particular area of Wales.

(3) In these Regulations, unless the contrary intention appears, references to employing a person include employing a person whether or not for payment, and whether under a contract of service, a contract for services or otherwise than under a contract and references to an employee or to a person being employed are to be construed accordingly.

PART 2

APPLICATION FOR REGISTRATION UNDER PART 2 OF THE MEASURE

Prescribed requirements for registration

3.–(1) An applicant for registration as a child minder must—

- (a) satisfy and be likely to continue to satisfy the requirements prescribed in Part 1 of Schedule 1, which contains the requirements prescribed for the purposes of section 24(3)(b) of the Measure (*applications for registration: child minding*); and

(b) cydymffurfio â'r gofynion yn Rhan 3 (personau cofrestredig).

(2) Rhaid i geisydd am gofrestrriad fel darparrydd gofal dydd i blant—

(a) bodloni'r gofynion a ragnodir yn Rhan 2 o Atodlen 1, sy'n cynnwys y gofynion a ragnodir at ddibenion adran 26(3)(b) o'r Mesur (*ceisiadau i gofrestru: gofal dydd i blant*); a

(b) cydymffurfio â'r gofynion yn Rhan 3, 4 a 5.

Gwybodaeth a dogfennau sydd i'w cyflwyno ynghyd â chais i gofrestru

4.–(1) Rhaid i gais o dan adran 24(1) (ceisiadau i gofrestru: gwarchod plant) o'r Mesur—

- (a) bod mewn ysgrifen ar ffurflen a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru;
- (b) cael ei anfon neu'i ddanfôn i'r swyddfa briodol; ac
- (c) cynnwys yr wybodaeth a'r dogfennau y cyfeirir atynt yn Rhan 1 o Atodlen 2 mewn perthynas â'r materion a grybwyllir yno.

(2) Rhaid i gais o dan adran 26(1) (ceisiadau i gofrestru: gofal dydd i blant) o'r Mesur —

- (a) bod mewn ysgrifen ar ffurflen a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru;
- (b) cael ei anfon neu'i ddanfôn i'r swyddfa briodol; ac
- (c) cynnwys yr wybodaeth a'r dogfennau y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 2 mewn perthynas â'r materion a grybwyllir yno.

Tystysgrif gofrestru

5. Rhaid i dystysgrif gofrestru a roddir i geisydd o dan adran 28(2)(b) o'r Mesur (*cofnodi ar y gofrestr a thystysgrifau*) gynnwys y manylion canlynol—

- (a) enw, cyfeiriad a rhif teleffon y swyddfa briodol;
- (b) enw'r person a gofrestrwyd;
- (c) yn achos person a gofrestrwyd fel darparrydd gofal dydd, cyfeiriad y man lle y darperir y gofal dydd;
- (ch) enw'r person â chyfrifoldeb, os penodwyd un;
- (d) pan fo'r cofrestriad yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, manylion yr amodau;
- (dd) y dyddiad cofrestru;
- (e) datganiad i'r perwyl y caiff Gweinidogion Cymru ddiddymu'r cofrestriad, os na ddarperir

(b) be likely to comply with the relevant requirements in Parts 3, 4 and 5 .

(2) An applicant for registration as a provider of day care for children must—

(a) satisfy and be likely to continue to satisfy the requirements prescribed in Part 2 of Schedule 1, which contains the requirements prescribed for the purposes of section 26(3)(b) of the Measure (*Applications for registration: day care for children*); and

(b) be likely to comply with the relevant requirements in Parts 3, 4 and 5 .

Information and documentation to accompany application for registration

4.–(1) An application under section 24(1) of the Measure must—

- (a) be in writing on a form approved by the Welsh Ministers;
- (b) be sent or delivered to the appropriate office; and
- (c) include the information and documentation referred to in Part 1 of Schedule 2 in respect of the matters mentioned therein.

(2) An application under section 26(1) of the Measure must—

- (a) be in writing on a form approved by the Welsh Ministers;
- (b) be sent or delivered to the appropriate office; and
- (c) include the information and documentation referred to in Part 2 of Schedule 2 in respect of the matters mentioned therein.

Certificate of registration

5. A certificate of registration given to an applicant under section 28(2)(b) of the Measure (*Entry on the register and certificates*) must contain the following particulars—

- (a) the name, address and telephone number of the appropriate office;
- (b) the name of the person who has been registered;
- (c) in the case of a person registered as a provider of day care, the address at which the day care is to be provided;
- (d) the name of the person in charge, where one has been appointed;
- (e) where the registration is subject to any conditions, details of the conditions;
- (f) the date of registration;
- (g) a statement that if the child minding or day care, as the case may be, is not provided in

y gwarchod plant neu'r gofal dydd, yn ôl fel y digwydd, yn unol â'r amodau a osodwyd;

- (f) datganiad i'r perwyl bod y dystysgrif yn berthynol i'r person y'i dyroddwyd iddo gan Weinidogion Cymru yn unig, ac na ellir ei throsglwyddo i unrhyw berson arall.

RHAN 3

PERSONAU COFRESTREDIG

Y person cofrestredig: ei addasrwydd

6.–(1) Ni chaiff person weithredu fel gwarchodwr plant na darparu gofal dydd oni bai bod y person yn addas i ofalu am blant o dan wyth oed.

(2) Nid yw person yn addas felly oni bai bod y person—

- (a) yn unigolyn sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant neu sy'n darparu gofal dydd ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth ag un neu ragor o bersonau, a phob unigolyn yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (3); neu
- (b) mewn achos pan fo person sy'n darparu gofal dydd, yn sefydliad ac—
- (i) y sefydliad wedi hysbysu'r swyddfa briodol o enw a chyfeiriad yr unigolyn cyfrifol a'i safle o fewn y sefydliad; a
- (ii) yr unigolyn cyfrifol yn bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (3).

(3) Y gofynion yw—

- (a) mewn perthynas â gwarchod plant—
- (i) bod y person sy'n gweithredu fel gwarchodwr plant yn bodloni'r gofynion a ragnodir ym mharagraffau 2 i 7 o Ran 1 o Atodlen 1; a
- (ii) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r unigolyn hwnnw, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 2, 16 ac 17 o Ran 1 o Atodlen 2;
- (b) mewn perthynas â darparu gofal dydd—
- (i) pan fo'r person yn unigolyn ac nad yw paragraff (4) yn gymwys—
- (aa) bod y person hwnnw'n bodloni'r gofynion a ragnodir ym mharagraffau 15 i 20 o Ran 2 o Atodlen 1; a
- (bb) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r person hwnnw, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 22, 39 a 40 o Ran 2 o Atodlen 2;

accordance with the conditions imposed the registration may be cancelled by the Welsh Ministers;

- (h) a statement that the certificate relates only to the person to whom it is issued by the Welsh Ministers and is not capable of being transferred to another person.

PART 3

REGISTERED PERSONS

Registered person: suitability

6.–(1) A person must not act as a child minder or provide day care unless the person is suitable to look after children under the age of eight.

(2) A person is not so suitable unless the person—

- (a) is an individual who acts as a child minder or, who provides day care alone or in partnership with one or more persons, and each such individual satisfies the requirements set out in paragraph (3); or
- (b) in the case where a person providing day care, is an organisation and—
- (i) the organisation has given notice to the appropriate office of the name, address and position in the organisation of the responsible individual; and
- (ii) the responsible individual satisfies the requirements set out in paragraph (3).

(3) The requirements are that —

- (a) in relation to child minding —
- (i) the person who acts as child minder satisfies the requirements prescribed in paragraphs 2 to 7 of Part 1 of Schedule 1; and
- (ii) there is full and satisfactory information or documentation available in relation to that individual in relation to each of the matters specified in paragraphs 2, 16 and 17 of Part 1 of Schedule 2;
- (b) in relation to the provision of day care—
- (i) where the person is an individual and paragraph (4) does not apply—
- (aa) that person satisfies the requirements prescribed in paragraphs 15 – 20 of Part 2 of Schedule 1, and
- (bb) there is full and satisfactory information or documentation in relation to that person in respect of each of the matters specified in paragraphs 22, 39 and 40 of Part 2 of Schedule 2;

- (ii) pan fo'r person yn unigolyn a pharagraff (4) yn gymwys–
 - (aa) bod y person hwnnw'n bodloni'r gofynion a ragnodir ym mharagraffau 15 i 20 o Ran 2 o Atodlen 1; a
 - (bb) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r person hwnnw, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 22(5)(b) a 39 o Ran 2 o Atodlen 2;
- (iii) os y person yw'r unigolyn cyfrifol ac nad yw paragraff (4) yn gymwys–
 - (aa) bod y person hwnnw'n bodloni'r gofynion a ragnodir ym mharagraffau 21 i 25 o Ran 2 o Atodlen 1; a
 - (bb) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r person hwnnw, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 24(2), 3(a), a (4), 39 a 40 o Ran 2 o Atodlen 2;
- (iv) os y person yw'r unigolyn cyfrifol a pharagraff (4) yn gymwys–
 - (aa) bod y person hwnnw'n bodloni'r gofynion a ragnodir ym mharagraffau 21 i 25 o Ran 2 o Atodlen 1; a
 - (bb) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r person hwnnw, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 24(2) a (3)(b), a 39 o Ran 2 o Atodlen 2.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo person â chyfrifoldeb wedi ei benodi.

Penodi person â chyfrifoldeb

7.–(1) Rhaid i'r person cofrestredig benodi unigolyn i fod yn person â chyfrifoldeb am ddarpariaeth gofal dydd–

- (a) os yw'r person cofrestredig yn sefydliad, ac os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn ymgymryd, neu os nad yw'n bwriadu ymgymryd, â'r chyfrifoldeb beunyddiol llawn am y ddarpariaeth gofal dydd; neu
- (b) os yw'r person cofrestredig yn unigolyn ac nad yw'n ymgymryd, neu nad yw'n bwriadu ymgymryd, â'r chyfrifoldeb beunyddiol llawn am y ddarpariaeth gofal dydd.

(2) Pan fo'r person cofrestredig yn penodi unigolyn i fod yn berson â chyfrifoldeb, rhaid i'r person cofrestredig–

- (a) sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn addas i fod yn berson â chyfrifoldeb am ddarparu gofal dydd; a

- (ii) where the person is an individual and paragraph (4) applies–
 - (aa) that person satisfies the requirements prescribed in paragraphs 15 – 20 of Part 2 of Schedule 1; and
 - (bb) there is full and satisfactory information or documentation in relation to that person in respect of each of the matters specified in paragraphs 22(5)(b) and 39 of Part 2 of Schedule 2;
- (iii) where the person is the responsible individual and paragraph (4) does not apply–
 - (aa) that person satisfies the requirements prescribed in paragraphs 21 – 25 of Part 2 of Schedule 1; and
 - (bb) there is full and satisfactory information or documentation in relation to that person in respect of each of the matters specified in paragraphs 24(2), (3)(a), and (4), 39 and 40 of Part 2 of Schedule 2;
- (iv) where the person is the responsible individual and paragraph (4) applies–
 - (aa) that person satisfies the requirements prescribed in paragraphs 21 – 25 of Part 2 of Schedule 1; and
 - (bb) there is full and satisfactory information or documentation in relation to that person in respect of each of the matters specified in paragraphs 24(2) and (3)(b), and 39 of Part 2 of Schedule 2.

(4) This paragraph applies where a person in charge has been appointed.

Appointment of a person in charge

7.–(1) The registered person must appoint an individual to be the person in charge of the provision of day care if–

- (a) the registered person is an organisation and the responsible individual is not or does not intend to be in full day to day charge of the provision of day care; or
- (b) the registered person is an individual and he or she is not or does not intend to be in full day to day charge of the provision of day care.

(2) Where the registered person appoints an individual to be the person in charge, the registered person must–

- (a) ensure that the person in charge is suitable to be the person in charge of the provision of day care; and

- (b) hysbysu'r swyddfa briodol ar unwaith o'r dyddiad y bydd y person â chyfrifoldeb yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw.

Y person â chyfrifoldeb: ei addasrwydd

8.–(1) Rhaid i berson beidio â gweithredu fel person â chyfrifoldeb am ddarpariaeth gofal dydd onid yw'n berson addas i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn addas felly onid yw'r person yn bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (3).

(3) Y gofynion yw fod y person–

- (a) yn bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff 27 i 31 o Ran 2 of Atodlen 1; a
- (b) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r person, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraffau 25, 39 ac 40 o Ran 2 o Atodlen 2.

Y person cofrestredig: gofynion cyffredinol

9.–(1) Rhaid i'r person cofrestredig, gan roi sylw –

- (a) i'r datganiad o ddiben, nifer y plant perthnasol a'u hanghenion (gan gynnwys unrhyw anghenion sy'n deillio o anabled), a
- (b) i'r angen i ddiogelu a hyrwyddo'u lles,

weithredu fel gwarchodwr plant neu ddarparu gofal dydd (yn ôl fel y digwydd) â gofal, cymhwysedd a medrusrwydd digonol.

(2) Os oes person â chyfrifoldeb wedi ei benodi, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn bodloni'r gofynion a bennir ym mharagraff (1).

(3) Os yw person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu yn unigolyn sy'n darparu gofal dydd, rhaid i'r person cofrestredig ymgymryd o bryd i'w gilydd ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol, er mwyn sicrhau bod ganddo'r profiad a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i weithredu fel gwarchodwr plant neu i ddarparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd.

(4) Os yw'r person cofrestredig yn sefydliad sy'n darparu gofal dydd, rhaid iddo sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol, er mwyn sicrhau bod ganddo'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu gofal dydd.

(5) Os oes person â chyfrifoldeb wedi ei benodi, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y person â chyfrifoldeb yn ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol, er mwyn sicrhau bod ganddo'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu gofal dydd.

- (b) forthwith give notice to the appropriate office of the date on which the person in charge will take charge of the provision of day care.

Person in charge: suitability

8.–(1) A person must not act as the person in charge of the provision of day care unless he or she is suitable to do so.

(2) A person is not so suitable unless the person satisfies the requirements set out in paragraph (3).

(3) The requirements are that the person–

- (a) satisfies the requirements prescribed in paragraphs 27 to 31 of Part 2 of Schedule 1; and
- (b) that there is full and satisfactory information or documentation available in relation to the person in respect of each of the matters specified in paragraphs 25, 39 and 40 of Part 2 of Schedule 2.

Registered person: general requirements

9.–(1) The registered person must, having regard to–

- (a) the statement of purpose, the number and needs (including any needs arising from disability) of the relevant children, and
- (b) the need to safeguard and promote their welfare,

act as a child minder or provide day care (as the case may be) with sufficient care, competence and skill.

(2) Where a person in charge has been appointed, the registered person must ensure that the person in charge fulfils the requirements set out in paragraph (1).

(3) Where a registered person acts as a child minder or is an individual providing day care, the registered person must undertake from time to time such training as is appropriate to ensure that he or she has the experience and skills necessary for acting as a child minder or providing day care, as the case may be.

(4) Where the registered person is an organisation providing day care it must ensure that the responsible individual undertakes such training as is appropriate to ensure that he or she has the skills necessary for providing day care or, where a person in charge has been appointed, for supervising the provision of day care.

(5) Where a person in charge has been appointed the registered person must ensure that the person in charge undertakes such training as is appropriate to ensure that he or she has the skills necessary for providing day care.

Hysbysu am dramgwyddau

10.–(1) Os ceir y person cofrestredig, y person â chyfrifoldeb neu'r unigolyn cyfrifol yn euog o unrhyw dramgwydd troseddol, pa un ai yng Nghymru neu yn rhywle arall, rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r swyddfa briodol, ar unwaith ac mewn ysgrifen, o'r canlynol–

- (a) dyddiad a lleoliad y gollfarn;
- (b) y tramgwydd y cafwyd y person yn euog ohono; ac
- (c) y gosb a osodwyd ar y person mewn perthynas â'r tramgwydd.

(2) Os cyhuddir y person cofrestredig neu'r person â chyfrifoldeb o unrhyw dramgwydd y gellir gwneud gorchymyn mewn perthynas ag ef o dan Ran II o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000(1) rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r swyddfa briodol ar unwaith mewn ysgrifen, o'r tramgwydd y'i cyhuddwyd ohono, a dyddiad a lleoliad y cyhuddiad.

Marwolaeth person cofrestredig

11.–(1) Os oes mwy nag un person wedi eu cofrestru mewn perthynas â darpariaeth gofal dydd, ac os bydd farw un o'r personau cofrestredig, rhaid i berson cofrestredig sy'n goroesi hysbysu'r swyddfa briodol o'r farwolaeth, mewn ysgrifen o fewn 14 diwrnod ar ôl y farwolaeth.

(2) Os un person yn unig a gofrestrwyd mewn perthynas â darpariaeth gofal dydd, ac os bydd farw'r person hwnnw, rhaid i'w gynrychiolwyr personol hysbysu'r swyddfa briodol mewn ysgrifen–

- (a) o farwolaeth y person cofrestredig o fewn 14 diwrnod ar ôl y farwolaeth honno; a
- (b) o fewn 28 diwrnod ar ôl marwolaeth y person cofrestredig, o'u bwriadau ynglŷn â rhedeg y ddarpariaeth gofal dydd yn y dyfodol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), caiff cynrychiolwyr personol person a gofrestrwyd i ddarparu gofal dydd ac a fu farw barhau i weithredu'r ddarpariaeth gofal dydd heb eu cofrestru mewn perthynas â hi–

- (a) am gyfnod na fydd yn hwy nag 28 diwrnod ar ôl marwolaeth y person cofrestredig; a
- (b) am unrhyw gyfnod pellach a benderfynir yn unol â pharagraff (4).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar gyfnod at ddibenion paragraff (3)(b), na fydd yn hwy nag un flwyddyn ar ôl marwolaeth y person cofrestredig, a rhaid iddynt hysbysu'r cynrychiolwyr personol o unrhyw benderfyniad o'r fath, mewn ysgrifen.

Notification of offences

10.–(1) Where the registered person, the person in charge or the responsible individual is convicted of any criminal offence whether in Wales or elsewhere, the registered person must forthwith give notice in writing to the appropriate office of–

- (a) the date and place of the conviction;
- (b) the offence of which the person was convicted; and
- (c) the penalty imposed on the person in respect of the offence.

(2) Where the registered person or the person in charge is charged with any offence in respect of which an order may be made under Part II of the Criminal Justice and Court Services Act 2000(1) the registered person must forthwith give notice in writing to the appropriate office of the offence charged and the date and place of charge.

Death of registered person

11.–(1) If more than one person is registered in respect of the provision of day care, and a registered person dies, a surviving registered person must within 14 days of the death provide the appropriate office with written notification of the death.

(2) If only one person is registered in respect of the provision of day care, and that person, dies, his or her personal representatives must notify the appropriate office in writing–

- (a) within 14 days of the death of the registered person, of that death; and
- (b) within 28 days of the death of the registered person, of their intentions regarding the future running of the provision of day care.

(3) Subject to paragraph (5), the personal representatives of a deceased person who is registered to provide day care may carry on the provision of day care without being registered in respect of it–

- (a) for a period not exceeding 28 days from the death of the registered person; and
- (b) for any further period as may be determined in accordance with paragraph (4).

(4) The Welsh Ministers may determine a period, not exceeding one year from the date of the death of the registered person, for the purposes of paragraph (3)(b) and must notify any such determination to the personal representatives in writing.

(1) 2000 p.43.

(1) 2000 c.43.

(5) Rhaid i'r cynrychiolwyr personol benodi person â chyfrifoldeb i reoli'r ddarpariaeth gofal dydd yn ystod y cyfnod pan fyddant, yn unol â pharagraff (3), yn parhau i weithredu'r ddarpariaeth gofal dydd heb eu cofrestru mewn perthynas â hi.

(6) Os bydd farw person a gofrestrwyd mewn perthynas â gwarchod plant, rhaid i'w gynrychiolwyr personol hysbysu'r swyddfa briodol, mewn ysgrifen o fewn 14 diwrnod ar ôl marwolaeth y person cofrestredig.

RHAN 4

GOFYNIION CYFFREDINOL A GORFODI

Gofyniad i gydymffurfio â rheoliadau

12.–(1) Rhaid i berson cofrestredig–

- (a) bodloni'r gofynion a bennir yn Rhan 5 fel y maent yn gymwys i'r person hwnnw; a
- (b) wrth ddarparu'r gofal a ddarperir ganddo, rhoi sylw i anghenion pob plentyn unigol a warchodir neu y darperir gofal dydd iddo.

(2) Bydd unrhyw fethiant ar ran y person cofrestredig–

- (a) i fodloni unrhyw ofyniad perthnasol a bennir yn Rhan 5; neu
- (b) i roi sylw i'r mater a bennir ym mharagraff (1)(b),

yn fater y caiff Gweinidogion Cymru ei gymryd i ystyriaeth wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur ac mewn unrhyw achos o dan y Rhan honno o'r Mesur.

Cydymffurfio â rheoliadau – mwy nag un person cofrestredig

13. Pan fo mwy nag un person cofrestredig ar gyfer darpariaeth gofal dydd i blant perthnasol yn yr un fangre, ni fydd yn ofynnol i unrhyw un o'r personau cofrestredig wneud unrhyw beth y mae'n ofynnol iddo gael ei wneud, ei wneud o dan y Rheoliadau hyn gan y person cofrestredig, os gwnaed y peth hwnnw gan un o'r personau cofrestredig eraill.

Safonau gofynnol cenedlaethol

14.–(1) Rhaid i'r person cofrestredig roi sylw i'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n ymwneud â'r math o ofal a ddarperir gan y person cofrestredig.

(2) Bydd unrhyw honiad bod y person cofrestredig wedi methu â chydymffurfio â pharagraff (1) yn fater y caiff Gweinidogion Cymru ei gymryd i ystyriaeth wrth arfer eu swyddogaethau o dan Ran 2 o'r Mesur ac

(5) The personal representatives must appoint a person in charge to manage the provision of day care during the period in which, in accordance with paragraph (3), they carry on the provision of day care without being registered in respect of it.

(6) If a person is registered in respect of child minding, and that person dies, his or her personal representatives must notify the appropriate office in writing within 14 days of the death of the registered person.

PART 4

GENERAL REQUIREMENTS AND ENFORCEMENT

Requirement to comply with regulations

12.–(1) A registered person must–

- (a) meet the requirements set out in Part 5 as they apply to that person; and
- (b) in the provision of the care provided by that person, have regard to the needs of each child for whom child minding or day care is provided.

(2) Any failure by the registered person–

- (a) to meet any relevant requirement set out in Part 5; or
- (b) to have regard to the matter specified in paragraph (1)(b),

may be taken into account in the exercise by the Welsh Ministers of their functions under Part 2 of the Measure and in any proceedings under that Part of the Measure.

Compliance with regulations – more than one registered person

13. Where there is more than one registered person in respect of the provision of day care for relevant children on the same premises anything which is required under these Regulations to be done by the registered person will, if done by one of the registered persons, not be required to be done by any of the other registered persons.

National minimum standards

14.–(1) The registered person must have regard to the national minimum standards which relate to the type of care provided by the registered person.

(2) Any allegation that the registered person has failed to comply with paragraph (1) may be taken into account in the exercise by the Welsh Ministers of their functions under Part 2 of the Measure and in any

mewn unrhyw achos o dan y Rhan honno o'r Mesur.

Datganiad o ddiben

15.–(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio, mewn perthynas â'r gwaith gwarchod plant neu'r ddarpariaeth gofal dydd y'i cofrestrwyd ar ei gyfer neu ar ei chyfer, datganiad ar bapur ("y datganiad o ddiben") a rhaid i'r datganiad hwnnw gynnwys –

- (a) datganiad o nodau ac amcanion;
- (b) datganiad ynghylch ystod oedran, rhyw a nifer y plant y bwriedir darparu gofal ar eu cyfer gan y person cofrestredig ac ynghylch yr ystod anghenion y mae'r person yn bwriadu ei diwallu;
- (c) datganiad ynghylch y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd i'w darparu neu i'w rhoi ar gael i blant perthnasol;
- (ch) datganiad ynghylch y gweithgareddau sydd i'w darparu ac ynglŷn â'r iaith neu'r ieithoedd y darperir y gweithgareddau ynddynt; a
- (d) datganiad o'r telerau ac amodau y darperir gofal yn unol â hwy i blant perthnasol pan fo'r person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu'n darparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn gweithredu fel gwarchodwr plant, neu y darperir gofal dydd, yn ôl fel y digwydd, mewn modd sy'n gyson â'r datganiad o ddiben.

(3) Nid oes dim ym mharagraff (2) nac yn rheoliad 37 sy'n gwneud yn ofynnol bod y person cofrestredig yn torri neu'n peidio â chydymffurfio â'r canlynol, nac yn ei awdurdodi i wneud hynny–

- (a) unrhyw ddarpariaeth arall o'r Rheoliadau hyn; neu
- (b) yr amodau sydd mewn grym ar y pryd mewn perthynas â chofrestrriad y person cofrestredig o dan Ran 2 o'r Mesur.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig–

- (a) cadw'r datganiad o ddiben dan arolwg, a phan fo'n briodol, ei ddiwygio; a
- (b) pan fo'n ymarferol, hysbysu'r swyddfa briodol ynghylch unrhyw ddiwygiad o'r fath, 28 diwrnod cyn y bo'r diwygiad i gael effaith.

Adolygu ansawdd y gofal

16.–(1) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a roddir i blant.

(2) Rhaid i'r system a sefydlir o dan baragraff (1) darparu–

proceedings under that Part of the Measure.

Statement of purpose

15.–(1) The registered person must compile in relation to the child minding or provision of day care for which the person is registered, a statement on paper ("the statement of purpose") which must consist of–

- (a) a statement of aims and objectives;
- (b) a statement as to the age-range, sex and number of children for whom care is intended to be provided by the registered person and as to the range of needs that the person intends to meet;
- (c) a statement as to the facilities and services to be provided or made available to relevant children;
- (d) a statement as to the activities to be provided and as to the language or languages through which the activities will be provided; and
- (e) a statement of the terms and conditions upon which care is provided to relevant children when the registered person acts as a child minder or provides day care, as the case may be.

(2) Subject to paragraph (3) the registered person must ensure that he or she acts as a child minder or that day care is provided, as the case may be, in a manner which is consistent with the statement of purpose.

(3) Nothing in paragraph (2) or in regulation 37 requires or authorises the registered person to contravene or not to comply with–

- (a) any other provision of these Regulations; or
- (b) the conditions for the time being in force in relation to the registration of the registered person under Part 2 of the Measure.

(4) The registered person must–

- (a) keep under review, and, where appropriate, revise the statement of purpose; and
- (b) whenever practicable notify the appropriate office of any such revision at least 28 days before it is to take effect.

Review of quality of care

16.–(1) The registered person must make suitable arrangements to establish and maintain a system for monitoring, reviewing and improving the quality of care given to children.

(2) The system established under paragraph (1) must make provision for–

- (a) ar gyfer adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol, o leiaf; a
- (b) i'r person cofrestredig gasglu safbwyntiau—
 - (i) plant perthnasol;
 - (ii) rhieni plant perthnasol;
 - (iii) awdurdod lleol sy'n trefnu ar gyfer gwarchod neu ddarparu gofal dydd i blentyn perthnasol; a
 - (iv) personau a gyflogir i ofalu am blant perthnasol,

ynglŷn ag ansawdd y gofal a ddarperir, yn rhan o unrhyw adolygiad a ymgymerir.

(3) Yn dilyn adolygiad o ansawdd y gofal, rhaid i'r person cofrestredig, o fewn 28 diwrnod, baratoi adroddiad ar yr adolygiad, a rhoi copi o'r adroddiad hwnnw ar gael mewn fformat priodol pan ofynnir amdano gan—

- (a) rhieni plant perthnasol;
- (b) awdurdod lleol sy'n trefnu ar gyfer gwarchod neu ddarparu gofal dydd i blentyn perthnasol;
- (c) personau a gyflogir i ofalu am blant perthnasol; ac
- (ch) Gweinidogion Cymru.

Asesu'r gwasanaeth

17.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ofyn, ar unrhyw adeg, i'r person cofrestredig gyflawni asesiad o'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i blant perthnasol.

(2) O fewn 28 diwrnod ar ôl cael cais o dan baragraff (1) rhaid i'r person cofrestredig gyflwyno'r asesiad i'r swyddfa briodol yn y ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig gymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'r asesiad yn gamarweiniol nac yn anghywir.

Hysbysiad i gydymffurfio

18.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, hysbysu'r person cofrestredig ynglŷn â pha gamau y mae'n rhaid iddo'u cymryd, ym marn Gweinidogion Cymru, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Rhan 2 o'r Mesur ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Rhan honno.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu terfyn amser ar gyfer gweithredu gan y person cofrestredig fel sy'n ofynnol o dan baragraff (1).

(3) Rhaid i'r person cofrestredig roi gwybod i'r swyddfa briodol pan fo unrhyw weithredu fel sy'n ofynnol dan baragraff (1) wedi ei gwblhau.

- (a) the quality of care to be reviewed at least annually; and
- (b) the registered person to obtain the views of—
 - (i) relevant children;
 - (ii) the parents of relevant children;
 - (iii) a local authority arranging for child minding or day care for a relevant child; and
 - (iv) persons employed to look after relevant children,

on the quality of care provided, as part of any review undertaken.

(3) Following a review of the quality of care, the registered person must within 28 days prepare a report of that review and make a copy of that report available in an appropriate format when requested by—

- (a) the parents of relevant children;
- (b) a local authority arranging for child minding or day care for a relevant child;
- (c) persons employed to look after relevant children; and
- (d) the Welsh Ministers.

Assessment of service

17.—(1) The Welsh Ministers may at any time request the registered person to undertake an assessment of the service provided by that person to relevant children.

(2) Within 28 days of receiving a request under paragraph (1), the registered person must supply to the appropriate office the assessment in the form required by the Welsh Ministers.

(3) The registered person must take reasonable steps to ensure that the assessment is not misleading nor inaccurate.

Compliance notification

18.—(1) The Welsh Ministers may at any time notify the registered person of the action that in the view of the Welsh Ministers the registered person must take to ensure compliance with Part 2 of the Measure and any regulations made under that Part.

(2) The Welsh Ministers may specify the timescale within which the registered person must take the action required under paragraph (1).

(3) The registered person must advise the appropriate office of the completion of any action required under paragraph (1).

Tramgwyddau

19. Mae person cofrestredig sydd, heb esgus rhesymol, yn mynd yn groes i, neu rywfodd arall yn peidio â chydymffurfio â–

- (a) Rheoliadau 15 i 18; a
- (b) Rhannau 3 a 5,

yn euog o dramgwydd, ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

RHAN 5

GWEITHGAREDDAU PERSONAU A GOFRESTRIR O DAN RAN 2 O'R MESUR

Diogelu a hyrwyddo lles

20.–(1) Rhaid i berson cofrestredig weithredu fel gwarchodwr plant neu ddarparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd, mewn ffordd sy'n–

- (a) hyrwyddo ac yn darparu'n briodol ar gyfer lles plant perthnasol; a
- (b) yn darparu'n briodol ar gyfer gofal, addysg, goruchwyliaeth, a phan fo'n briodol, triniaeth i blant perthnasol.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob person sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed ac–

- (a) yn byw yn y fangre berthnasol;
- (b) yn gweithio yn y fangre berthnasol (ac eithrio person a grybwyllir yn rheoliad 28); neu
- (c) sydd fel arall yn bresennol yn y fangre berthnasol ac yn dod, neu'n debygol o ddod, i gysylltiad yn rheolaidd â phlant perthnasol,

yn addas i gael cyswllt o'r fath.

(3) At ddibenion paragraff (2), mae person sy'n gweithio yn y fangre berthnasol yn cynnwys person sy'n gweithio ar sail wirfoddol.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig gadarnhau wrth Weinidogion Cymru, mewn perthynas â phob person a grybwyllir ym mharagraff (2)–

- (a) bod tystysgrif cofnod troseddol fanylach wedi ei dyroddi; a
- (b) pan fo'n briodol(1), y person wedi ei gofrestru gydag ADA ac wedi darparu ei rif cofrestru

(1) Mae'r gofyniad ar i bersonau sy'n ymgymryd â gweithgarwch a reoleiddir mewn lleoliadau gofal plant gofrestru gydag ADA o dan y Cynllun Fetio a Gwahardd yn cael ei weithredu fesul cam, yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwylf 2006 (p.47). Mewn perthynas â hyn, rhaid dehongli'r ymadrodd "pan fo'n briodol" yn unol â'r gofyniad sydd ar y person i gofrestru gydag ADA, fel a esbonnir yn y *Vetting and Barring Scheme Guidance* (ISBN - 978 - 1 - 84987 - 2020 7) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym Mawrth 2010.

Offences

19. A registered person who, without reasonable excuse, contravenes or otherwise fails to comply with the requirements of–

- (a) Regulations 15 to 18; and
- (b) Parts 3 and 5,

is guilty of an offence and will be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale.

PART 5

ACTIVITIES OF PERSONS REGISTERED UNDER PART 2 OF THE MEASURE

Safeguarding and promotion of welfare

20.–(1) The registered person must act as a child minder or provide day care, as the case may be, in such a way as to–

- (a) promote and make proper provision for the welfare of relevant children; and
- (b) make proper provision for the care, education, supervision and, where appropriate, treatment, of relevant children.

(2) The registered person must ensure that every person who has attained the age of 16 and who–

- (a) lives on the relevant premises;
- (b) works on the relevant premises (other than a person mentioned in regulation 28); or
- (c) is otherwise present on the relevant premises and has or is likely to have regular contact with relevant children,

is suitable to have such contact.

(3) For the purposes of paragraph (2), a person who works on the relevant premises includes a person who works on a voluntary basis.

(4) The registered person must confirm to the Welsh Ministers that in respect of each person mentioned in paragraph (2) –

- (a) an enhanced criminal record certificate has been issued; and
- (b) where appropriate(1), the person is registered with the ISA and that the person has provided

(1) The requirement for persons undertaking regulated activity in child care settings to register with the ISA under the Vetting and Barring Scheme is being introduced incrementally in accordance with Regulations made under the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 (c.47). In this respect the term "where appropriate" is to be interpreted in accordance with a person's requirement to register with the ISA explained in the *Vetting and Barring Scheme Guidance* issued by the Home Office in March 2010 (ISBN - 978 - 1 - 84987 - 2020 7).

ADA i'r person cofrestredig.

(5) Os nad oes hawl gan y person cofrestredig i gael, mewn perthynas â pherson y cyfeirir ato ym mharagraff (2), yr wybodaeth neu'r ddogfennaeth y gellir seilio'r cadarnhad sy'n ofynnol gan baragraff (4) arni, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unrhyw berson o'r fath yn cael ei oruchwylio'n briodol ar bob achlysur pan fo mewn cysylltiad â phlentyn neu blant perthnasol.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig, at y diben o ddarparu gofal i blant perthnasol a gwneud darpariaeth briodol ar gyfer eu lles ac i'r graddau y bo'n ymarferol, ganfod a chymryd i ystyriaeth eu dymuniadau a'u teimladau.

(7) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i sicrhau, tra bo plant perthnasol yng ngofal y person cofrestredig—

- (a) bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu parchu;
- (b) y rhoddir sylw dyladwy i'w rhyw, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol a chefnidir diwylliannol ac ieithyddol ac unrhyw anabledd sy'n effeithio arnynt.

Y bwyd a ddarperir i'r plant

21.–(1) Os darperir bwyd gan y person cofrestredig i blant perthnasol, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

- (a) y darperir bwyd iddynt—
 - (i) a weinir mewn meintiau digonol ar adegau priodol;
 - (ii) sydd wedi ei baratoi'n briodol ac yn iachus a maethlon;
 - (iii) sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac yn bodloni eu hoffterau rhesymol; a
 - (iv) sy'n cynnwys amrywiaeth ddigonol; a
- (b) y bodlonir unrhyw angen dietegol arbennig plentyn perthnasol, sy'n deillio o gyflwr iechyd, argyhoeddiad crefyddol, tarddiad hiliol neu gefndir diwylliannol y plentyn.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael i blant perthnasol drwy gydol yr amser a dreuliant dan ofal y person cofrestredig.

Trefniadau ar gyfer amddiffyn plant

22.–(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio a gweithredu polisi ysgrifenedig—

- (a) sydd â'r bwriad o ddiogelu plant perthnasol rhag eu cam-drin neu'u hesgeuluso; a
- (b) sy'n pennu'r weithdrefn sydd i'w dilyn os gwneir unrhyw honiad o gam-drin neu esgeuluso.

their ISA registration number to the registered person.

(5) If the registered person is not entitled to receive, in respect of a person referred to in paragraph (2) the information or documentation upon which to base the confirmation required by paragraph (4), the registered person must ensure that any such person is appropriately supervised at all times when he or she is in contact with a relevant child or children.

(6) The registered person must, for the purpose of providing care to relevant children and making proper provision for their welfare, so far as practicable, ascertain and take into account their wishes and feelings.

(7) The registered person must make suitable arrangements to ensure that while relevant children are in the care of the registered person—

- (a) their privacy and dignity is respected;
- (b) due regard is paid to their sex, religious persuasion, racial origin, cultural and linguistic background and any disability affecting them.

Food provided for children

21.–(1) The registered person must ensure, where food is provided to relevant children by the registered person, that—

- (a) they are provided with food which—
 - (i) is served in adequate quantities and at appropriate intervals;
 - (ii) is properly prepared, wholesome and nutritious;
 - (iii) is suitable for their needs and meets their reasonable preferences; and
 - (iv) is sufficiently varied; and
- (b) any special dietary need of a relevant child which is due to the child's health, religious persuasion, racial origin or cultural background is met.

(2) The registered person must ensure that relevant children are provided with access to fresh drinking water at all times while they are under the care of the registered person.

Arrangements for the protection of children

22.–(1) The registered person must draw up and implement a written policy which—

- (a) is intended to safeguard relevant children from abuse or neglect; and
- (b) sets out the procedure to be followed in the event of any allegation of abuse or neglect.

(2) Yn benodol, rhaid i'r weithdrefn o dan baragraff (1)(b) ddarparu ar gyfer—

- (a) cysylltu a chydweithredu ag unrhyw awdurdod lleol sy'n gwneud, neu a all fod yn gwneud, ymholiadau amddiffyn plant mewn perthynas â phlentyn perthnasol;
- (b) cyfeirio yn ddi-oed unrhyw honiadau o gam-drin neu esgeuluso sy'n effeithio ar blentyn perthnasol, at yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y lleolir y fangre berthnasol ynddi;
- (c) cadw cofnodion ysgrifenedig o unrhyw honiad o gam-drin neu esgeuluso, ac o'r camau a gymerwyd wrth ymateb iddynt;
- (ch) rhoi ystyriaeth ym mhob achos i'r mesurau a all fod yn angenrheidiol i amddiffyn plant perthnasol yn dilyn honiad o gam-drin neu esgeuluso;
- (d) gofyniad bod unrhyw bersonau sy'n gweithio gyda phlant perthnasol yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch lles neu ddiogelwch plentyn i un o'r canlynol—
 - (i) y person cofrestredig;
 - (ii) cwnstabl;
 - (iii) person sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ran 2 o'r Mesur;
 - (iv) un o swyddogion yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y lleolir y fangre berthnasol ynddi; neu
 - (v) un o swyddogion y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant;
- (dd) trefniadau sy'n caniatáu bob amser i bersonau sy'n gweithio gyda phlant perthnasol gael mynediad at wybodaeth ar ffurf briodol a fyddai'n eu galluogi i gysylltu â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y lleolir y fangre berthnasol ynddi, neu â'r swyddfa briodol, ynghylch lles neu ddiogelwch y plant hynny.

Rheoli ymddygiad, atal a disgyblu

23.—(1) Ni chaniateir defnyddio unrhyw fesur rheoli, atal neu ddisgyblu sy'n ormodol, yn afresymol neu'n groes i baragraff (5) ar blant perthnasol ar unrhyw adeg.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig, yn unol â'r rheoliad hwn, lunio a gweithredu polisi rheoli ymddygiad ysgrifenedig sy'n rhagnodi—

- (a) y mesurau rheoli, atal a disgyblu y caniateir eu defnyddio yn y fangre berthnasol; a
- (b) y dull sydd i'w ddefnyddio i hyrwyddo ymddygiad priodol yn y fangre honno.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6) o'r rheoliad hwn, y mesurau rheoli, atal a disgyblu hynny y darperir ar eu cyfer yn y polisi rheoli ymddygiad dywededig, yn unig, y caniateir eu defnyddio ar blant

(2) The procedure under paragraph (1)(b) must in particular provide for—

- (a) liaison and co-operation with any local authority which is, or may be, making child protection enquiries in relation to a relevant child;
- (b) the prompt referral to the local authority for the area in which the relevant premises are situated, of any allegations of abuse or neglect affecting a relevant child;
- (c) written records to be kept of any allegation of abuse or neglect, and of the action taken in response;
- (d) consideration to be given in each case to the measures which may be necessary to protect relevant children following an allegation of abuse or neglect;
- (e) a requirement for any person working with relevant children to report any concerns about the welfare or safety of a child to one of the following—
 - (i) the registered person;
 - (ii) a constable;
 - (iii) a person responsible for exercising the functions of the Welsh Ministers under Part 2 of the Measure;
 - (iv) an officer of the local authority for the area in which the relevant premises are situated; or
 - (v) an officer of the National Society for the Prevention of Cruelty to Children;
- (f) arrangements giving persons working with relevant children, access at all times and in an appropriate form, to information which would enable them to contact the local authority for the area in which the relevant premises are situated, or the appropriate office concerning the welfare or safety of such children.

Behaviour management, discipline and restraint

23.—(1) No measure of control, restraint or discipline which is excessive, unreasonable or contrary to paragraph (5) may be used at any time on relevant children.

(2) The registered person must, in accordance with this regulation, draw up and implement a written behaviour management policy setting out—

- (a) the measures of control, restraint and discipline which may be used on the relevant premises; and
- (b) the means whereby appropriate behaviour is to be promoted on those premises.

(3) Subject to paragraphs (5) and (6), only such measures of control, restraint and discipline as are provided for in the said behaviour management policy may be used on relevant children.

perthnasol.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig cadw'r polisi rheoli ymddygiad dan arolwg, a phan fo'n briodol, ei ddiwygio a hysbysu'r swyddfa briodol ynghylch unrhyw ddiwygiad o'r fath o fewn 28 diwrnod ar ôl diwygio.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), ni chaniateir defnyddio'r mesurau canlynol, na bygwth defnyddio un neu ragor ohonynt ar blant perthnasol—

- (a) unrhyw ffurf o gosb gorfforol;
- (b) yn ddarostyngedig i ddarpariaeth mewn unrhyw orchymyn llys sy'n ymwneud â chysylltiadau rhwng y plentyn ac unrhyw berson, unrhyw gyfyngiad ar y plentyn o ran cysylltu neu gyfathrebu â'i rieni;
- (c) unrhyw gosb sy'n ymwneud â bwyta neu yfed, neu amddifadu o fwyd neu ddiod;
- (ch) unrhyw ofyniad bod plentyn yn gwisgo dillad neilltuol neu amhriodol;
- (d) defnyddio neu atal meddyginiaeth neu driniaeth feddygol neu ddeintyddol fel mesur disgyblu;
- (dd) atal plentyn yn fwriadol rhag cysgu;
- (e) unrhyw archwiliad corfforol agos ar blentyn;
- (f) gwrthod unrhyw gymhorthion neu offer y mae eu hangen ar blentyn anabl;
- (ff) unrhyw fesur sy'n—
 - (i) cynnwys plentyn mewn gweithredu unrhyw fesur yn erbyn plentyn arall; neu
 - (ii) cosbi grŵp o blant am ymddygiad plentyn unigol.

(6) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n gwahardd—

- (a) unrhyw weithred sydd ei hangen i ddiogelu iechyd plentyn, gan ymarferydd meddygol neu ddeintyddol cofrestredig neu'n unol â chyfarwyddiadau ymarferydd o'r fath;
- (b) unrhyw weithred sydd ei hangen ar unwaith i atal niwed i unrhyw berson neu ddifrod difrifol i eiddo.

Anghenion iechyd plant

24.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig hyrwyddo a diogelu iechyd plant perthnasol.

(2) Yn benodol, rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

- (a) bod pob plentyn yn cael y cymorth unigol sy'n ofynnol yng ngoleuni unrhyw anghenion iechyd neu anabledd penodol sydd gan y plentyn; a
- (b) ar bob adeg, bod o leiaf un person sy'n gofalu am blant perthnasol yn meddu ar gymhwyster cymorth cyntaf addas.

(4) The registered person must keep under review and where appropriate revise the behaviour management policy and notify the appropriate office of any such revision within 28 days of the revision having been made.

(5) Subject to paragraph (6), neither the following measures nor a threat to use one or more of them may be used on relevant children—

- (a) any form of corporal punishment;
- (b) subject to the provision of any court order relating to contact between the child and any person, any restriction on a child's contact or communication with his or her parents;
- (c) any punishment relating to the consumption or deprivation of food or drink;
- (d) any requirement that a child wear distinctive or inappropriate clothes;
- (e) the use or withholding of medication or medical or dental treatment as a disciplinary measure;
- (f) the intentional deprivation of sleep;
- (g) any intimate physical examination of a child;
- (h) the withholding of any aids or equipment needed by a disabled child;
- (i) any measure which involves—
 - (i) any child in the imposition of any measure against any other child; or
 - (ii) the punishment of a group of children for the behaviour of an individual child.

(6) Nothing in this regulation prohibits—

- (a) the taking of any action by, or in accordance with the instructions of, a registered medical or dental practitioner which is necessary to protect the health of a child;
- (b) the taking of any action immediately necessary to prevent injury to any person or serious damage to property.

Health needs of children

24.—(1) The registered person must promote and protect the health of relevant children.

(2) In particular the registered person must ensure that—

- (a) each child is provided with such individual support as may be required in the light of any particular health needs or disability of the child; and
- (b) at all times, at least one person caring for relevant children has a suitable first aid qualification.

Peryglon a diogelwch

25. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau—

- (a) i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, bod pob rhan o'r fangre berthnasol y gall plant perthnasol fynd iddi yn rhydd o beryglon i'w diogelwch;
- (b) i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, bod unrhyw weithgareddau y mae plant perthnasol yn cymryd rhan ynddynt yn rhydd rhag risgiau y gellir eu hosgoi; ac
- (c) bod risgiau diangen i iechyd neu ddiogelwch plant perthnasol yn cael eu nodi ac yn cael eu dileu i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

Defnyddio a storio meddyginiaethau

26.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas ar gyfer cadw unrhyw feddyginiaeth yn y fangre berthnasol yn ddiogel.

(2) Yn benodol rhaid i'r person cofrestredig sicrhau, yn ddarostyngedig i baragraff (3)—

- (a) bod plant perthnasol yn cael eu hatal rhag cael gafael ar unrhyw feddyginiaeth heb oruchwyliaeth;
- (b) bod unrhyw feddyginiaeth a bresgripsiynwyd ar gyfer plentyn perthnasol yn cael ei rhoi fel a bresgripsiynwyd i'r plentyn y'i presgripsiynwyd ar ei gyfer, ac nid i unrhyw blentyn arall; ac
- (c) bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw o unrhyw feddyginiaeth a roddir i blentyn perthnasol.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "presgripsiynwyd" yw—

- (a) archebwyd ar gyfer claf i'w darparu i'r claf hwnnw o dan neu yn rhinwedd adran 80 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (*trefniadau ar gyfer gwasanaethau fferyllol*)(1); neu
- (b) mewn achos nad yw'n dod o fewn is-baragraff (a), presgripsiynwyd ar gyfer claf o dan adran 58 o Ddeddf Meddyginiaethau 1968 (*cynhyrchion meddyginiaethol ar bresgripsiwn yn unig*)(2).

Staffio

27. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod nifer digonol o bersonau medrus a phrofiadol gyda chymwysterau addas yn gofalu am y plant perthnasol bob amser, o ystyried—

- (a) y datganiad o ddiben a nifer y plant perthnasol a'u hanghenion (gan gynnwys unrhyw anghenion sy'n deillio o unrhyw anabled), a

Hazards and safety

25. The registered person must ensure that—

- (a) all parts of the relevant premises to which relevant children have access are so far as reasonably practicable free from hazards to their safety;
- (b) any activities in which relevant children participate are so far as reasonably practicable free from avoidable risks; and
- (c) unnecessary risks to the health or safety of relevant children are identified and so far as possible eliminated.

Use and storage of medicines

26.—(1) The registered person must make suitable arrangements for the safekeeping of any medicine on relevant premises.

(2) In particular the registered person must ensure, subject to paragraph (3), that—

- (a) relevant children are prevented from having unsupervised access to any medicine;
- (b) any medicine that is prescribed for a relevant child is administered as prescribed, to the child for whom it is prescribed, and to no other child; and
- (c) a written record is kept of the administration of any medicine to a relevant child.

(3) In this regulation, "prescribed" means—

- (a) ordered for a patient for provision to that patient under or by virtue of section 80 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (*arrangements for pharmaceutical services*)(1); or
- (b) in a case not falling within sub-paragraph (a), prescribed for a patient under section 58 of the Medicines Act 1968 (*medicinal products on prescription only*)(2).

Staffing

27. The registered person must ensure that there is at all times, having regard to—

- (a) the statement of purpose and the number and needs (including any needs arising from any disability) of the relevant children, and

(1) 2006 p.42.

(2) 1968 p.67.

(1) 2006 c.42.

(2) 1968 c.67.

(b) yr angen i ddiogelu a hybu eu hiechyd a'u lles.

(b) the need to safeguard and promote their health and welfare,

a sufficient number of suitably qualified, skilled and experienced persons looking after the relevant children.

Addasrwydd gweithwyr

28.–(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (6), rhaid i'r person cofrestredig beidio ag–

- (a) cyflogi o dan gontract cyflogi person i ofalu am blant perthnasol oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny;
- (b) caniatáu i wirfoddolwr ofalu am blant perthnasol oni bai bod y person hwnnw yn addas i wneud hynny.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i ofalu am blant perthnasol oni bai–

- (a) pan fo'r person hwnnw'n gweithio i warchodwr plant–
 - (i) bod y person yn bodloni'r gofynion a ragnodir ym mharagraffau 8 i 12 o Ran 1 o Atodlen 1; a
 - (ii) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r person hwnnw, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraff 11(d) i (e) ac (g) i (h) o Ran 1 of Atodlen 2;
- (b) pan fo'r person hwnnw'n gweithio i ddarparydd gofal dydd–
 - (i) bod y person yn bodloni'r gofynion a ragnodir ym mharagraffau 32 i 36 o Ran 2 o Atodlen 1; a
 - (ii) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael ynglŷn â'r person hwnnw, mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir ym mharagraff 34 (d) i (e) ac (g) i (h) o Ran 2 o Atodlen 2.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo unigolyn wedi gwneud cais am dystysgrif cofnod troseddol fanylach, ond nad yw'r dystysgrif wedi ei dyroddi.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod–

- (a) unrhyw gynnig o gyflogaeth a wneir i berson a ddisgrifir ym mharagraff (1), neu unrhyw drefniant arall ynglŷn â gweithio yn y fangre berthnasol a wneir gyda neu mewn perthynas â pherson o'r fath, yn ddarostyngedig i gydymffurfio â gofynion perthnasol paragraff (2) mewn perthynas â'r person hwnnw; a
- (b) oni fydd paragraff (5) neu (6) yn gymwys, na fydd unrhyw berson o'r fath yn cychwyn gweithio yn y fangre berthnasol hyd nes cydymffurfir â gofynion perthnasol paragraff (2) mewn perthynas â'r person hwnnw.

Suitability of workers

28.–(1) Subject to paragraphs (5) and (6), the registered person must not–

- (a) employ under a contract of employment a person to look after relevant children unless that person is suitable to do so;
- (b) allow a volunteer to look after relevant children unless that person is suitable to do so.

(2) For the purposes of paragraph (1), a person is not suitable to look after relevant children unless–

- (a) where that person works for a child minder–
 - (i) the person satisfies the requirements prescribed in paragraphs 8 to 12 of Part 1 of Schedule 1; and
 - (ii) there is full and satisfactory information or documentation available in relation to the person in respect of each of the matters specified in paragraph 11 (e) to (g) and (j) to (1) of Part 1 of Schedule 2;
- (b) where that person works for a provider of day care–
 - (i) the person satisfies the requirements prescribed in paragraphs 32 to 36 of Part 2 of Schedule 1; and
 - (ii) there is full and satisfactory information or documentation available in relation to the person in respect of each of the matters specified in paragraph 34 (e) to (g) and (j) to (1) of Part 2 of Schedule 2.

(3) This paragraph applies where an individual has applied for an enhanced criminal record certificate but the certificate has not been issued.

(4) The registered person must ensure that–

- (a) any offer of employment to, or other arrangement about working in the relevant premises made with or in respect of a person described in paragraph (1), is subject to the relevant requirements of paragraph (2) being complied with in relation to that person; and
- (b) unless paragraph (5) or (6) applies, no such person starts work in the relevant premises until such time as the relevant requirements of paragraph (2) have been complied with in relation to that person.

(5) Pan fo'r amodau canlynol yn gymwys, caiff y person cofrestredig ganiatáu i berson ddechrau gweithio yn, neu at ddibenion, y fangre berthnasol er gwaethaf y darpariaeth ym mharagraffau (1) a (4)(b)–

- (a) bod y person cofrestredig wedi cymryd pob cam rhesymol i gael gwybodaeth lawn mewn perthynas â phob un o'r materion a restrir ym mharagraff (2) fel y mae'n gymwys i'r person hwnnw, ond bod yr ymholiadau mewn perthynas ag unrhyw rai o'r materion a restrir yn–
 - (i) paragraff 11 (d), (dd) ac (h) o Ran 1 o Atodlen 2, mewn perthynas â pherson y bwriedir iddo weithio neu sy'n gweithio i warchodwr plant, neu
 - (ii) paragraff 34 (d), (dd) ac (h) o Ran 2 o Atodlen 2, mewn perthynas â pherson y bwriedir iddo weithio neu sy'n gweithio i ddarparydd gofal dydd;

yn anghyflawn;

- (b) bod gwybodaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â'r person hwnnw wedi ei chael mewn perthynas â'r materion a bennir yn–
 - (i) paragraff 11 o Ran 1 o Atodlen 1 a paragraff 11(g) ac (ng) o Ran 1 o Atodlen 2, mewn perthynas â pherson y bwriedir iddo weithio neu sy'n gweithio i warchodwr plant, neu
 - (ii) paragraff 35 o Ran 2 o Atodlen 1 a paragraff 34(g) ac (ng) o Ran 2 o Atodlen 2, mewn perthynas â pherson y bwriedir iddo weithio neu sy'n gweithio i ddarparydd gofal dydd;
- (c) ym marn resymol y person cofrestredig, bod yr amgylchiadau'n eithriadol; ac
- (ch) bod y person cofrestredig, tra'n disgwyl am unrhyw wybodaeth sydd heb ddod i law a chyn bodloni ei hunan mewn perthynas â'r wybodaeth honno, yn sicrhau bod y person yn cael ei oruchwylio'n briodol tra'n cyflawni ei ddyletswyddau.

(6) Pan fo'r amodau canlynol yn gymwys, caiff y person cofrestredig ganiatáu i berson ddechrau gweithio yn, neu at ddibenion, y fangre berthnasol er gwaethaf paragraffau (1) a (4)(b)–

- (a) bod paragraff (3) o'r rheoliad hwn yn gymwys;
- (b) bod gwybodaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â'r person hwnnw wedi ei chael mewn perthynas â'r materion a bennir yn–
 - (i) paragraffau 8 i 10 a 12 o Ran 1 o Atodlen 1 a paragraff 11(d) i (e) ac (g) i (h) o Ran 1 o Atodlen 2, mewn perthynas â pherson y bwriedir iddo weithio neu sy'n gweithio i warchodwr plant; neu

(5) Where the following conditions apply, the registered person may permit a person to start work in or for the purposes of the relevant premises notwithstanding the provision in paragraphs (1) and (4)(b)–

- (a) the registered person has taken all reasonable steps to obtain full information in respect of each of the matters listed in paragraph (2) as it applies to that person, but the enquiries in relation to any of the matters listed in–
 - (i) paragraph 11 (e), (f) and (l) of Part 1 of Schedule 2, in respect of a person who is to work or works for a child minder, or
 - (ii) paragraph 34 (e), (f) and (l) of Part 2 of Schedule 2, in respect of a person who is to work or works for a provider of day care,

are incomplete;

- (b) full and satisfactory information in relation to that person has been obtained in respect of the matters specified in–
 - (i) paragraph 11 of Part 1 of Schedule 1 and paragraph 11 (j) and (k) of Part 1 of Schedule 2, in respect of a person who is to work or works for a child minder; or
 - (ii) paragraph 35 of Part 2 of Schedule 1 and paragraph 34 (j) and (k) of Part 2 of Schedule 2, in respect of a person who is to work or works for a provider of day care;
- (c) in the reasonable opinion of the registered person the circumstances are exceptional; and
- (d) pending receipt of, and being satisfied with regard to, any outstanding information, the registered person ensures that the person is appropriately supervised while carrying out his or her duties.

(6) Where the following conditions apply, the registered person may permit a person to start work in or for the purposes of the relevant premises notwithstanding paragraphs (1) and (4)(b)–

- (a) paragraph (3) of this regulation applies;
- (b) full and satisfactory information in relation to that person has been obtained in respect of the matters specified in–
 - (i) paragraphs 8 to 10 and 12 of Part 1 of Schedule 1 and paragraph 11 (e) to (g) and (j) to (l) of Part 1 of Schedule 2, in respect of a person who is to work or works for a child minder; or

- (ii) paragraffau 32 i 34 a 36 o Ran 2 o Atodlen 1 a paragraff 34(d) i (e) ac (g) i (h) o Ran 2 o Atodlen 2, mewn perthynas â pherson y bwriedir iddo weithio neu sy'n gweithio i ddarparu dydd gofal dydd;
- (c) bod y person wedi darparu datganiad ysgrifenedig o fanylion unrhyw dramgwyddau troseddol y cafwyd y person yn euog ohonynt, gan gynnwys manylion unrhyw gollfarnau a ddihsbyddwyd, o fewn yr ystyr a roddir i "spent conviction" yn adran 1 o Ddeddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974(1) ac y ceir eu datgelu yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadau) 1975(2), neu y rhybuddiwyd y person mewn cysylltiad â hwy;
- (ch) bod y person cofrestredig o'r farn, yn rhesymol, na fodlonir buddiannau'r gwasanaeth oni ellir penodi'r person; a
- (d) bod y person cofrestredig, tra'n disgwyl am y dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff (3) a chyn bodloni ei hunan mewn perthynas â hi, yn sicrhau bod y person yn cael ei oruchwylio'n briodol tra'n cyflawni ei ddyletswyddau.

Cyflogi staff

29.–(1) Rhaid i'r person cofrestredig weithredu gweithdrefn ddisgyblu sydd, yn benodol–

- (a) yn darparu ar gyfer atal cyflogai dros dro, a chymryd camau eraill heb fynd mor bell ag atal dros dro, mewn perthynas â chyflogai pan fo hynny'n briodol er lles neu ddiogelwch plant perthnasol; a
- (ch) ac at y diben o benderfynu ynghylch unrhyw berthynas o'r fath, rhaid trin llysblentyn person fel plentyn y person, ac y mae cyfeiriadau at "briod" mewn perthynas ag unrhyw berson yn cynnwys cyn-briod a pherson sy'n byw gyda'r person fel gŵr neu wraig, ac y mae cyfeiriadau at "bartner sifil" yn cynnwys cyn-bartner sifil.

- (a) the person's spouse or civil partner;
- (b) any parent, grandparent, child, grandchild, brother, sister, uncle, aunt, nephew or niece of the person or the person's spouse or civil partner;
- (c) the spouse or civil partner of any relative referred to in sub-paragraph (b),
- (d) and for the purposes of determining any such relationship a person's step-child is to be treated as the person's child, references to "spouse" in relation to any person include a former spouse and a person who is living with the person as husband or wife, and references to a "civil partner" include a former civil partner.

Gwybodaeth am y ceisydd: unigolyn

Information about the applicant: an individual

22.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r ceisydd yn unigolyn.

22.—(1) This paragraph applies where the applicant is an individual.

(2) Enw llawn y ceisydd (ac unrhyw enw arall neu enw blaenorol), ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad a'i rif teleffon.

(2) The applicant's full name (and any alias and former name), date of birth, address and telephone number.

(3) Manylion cymwysterau proffesiynol neu dechnegol a phrofiad y ceisydd, i'r graddau y mae'r cyfryw gymwysterau a phrofiad yn berthnasol i ofalu am blant o dan wyth mlwydd oed.

(3) Details of the applicant's professional or technical qualifications and experience, in so far as such qualifications and experience are relevant to the provision of day care for children under the age of eight.

(4) Manylion unrhyw fusnes a gynhelir neu a gynhaliwyd gan y ceisydd.

(4) Details of any business the applicant carries on or has carried on.

(5) Manylion hanes cyflogaeth y ceisydd, gan gynnwys—

(5) Details of the applicant's employment history, including—

- (a) hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth;
- (b) os oedd unrhyw gyflogaeth neu swydd flaenorol yn cynnwys gweithio gyda phlant, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol

- (a) a full employment history, together with a satisfactory written explanation of any gaps in employment;
- (b) where any previous employment or position has involved work with children, so far as reasonably practicable, verification of the

ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd honno i ben;

- (c) enw a chyfeiriad unrhyw gyflogwr presennol, a phan fo'n berthnasol, unrhyw gyflogwyr blaenorol;
- (ch) enwau a chyfeiriadau dau ganolwr—
 - (i) nad ydynt yn berthnasol i'r ceisydd,
 - (ii) sydd ill dau yn alluog i ddarparu geirada mewn perthynas â chymhwysedd y ceisydd i ofalu am blant o dan wyth mlwydd oed; a
 - (iii) un ohonynt, os yw'n bosibl, yn gyflogwr diweddaraf y ceisydd.

Gwybodaeth am y ceisydd: sefydliad

23.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r ceisydd yn sefydliad.

(2) Enw, cyfeiriad a rhif teleffon y ceisydd.

(3) Yn achos ceisydd sefydliadol sy'n gwmni, ei swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r cwmni, ei rif cofrestru ac, yn achos ceisydd sefydliadol sy'n elusen gofrestredig, ei rif elusen gofrestredig.

(4) Os yw'r sefydliad yn is-gwmni cwmni daliannol, enw a chyfeiriad y cwmni daliannol, ei swyddfa gofrestredig neu'i brif swyddfa ac unrhyw is-gwmni arall y cwmni daliannol hwnnw.

(5) Yn yr Atodlen hon rhaid dehongli'r geiriau "cwmni daliannol" ("*holding company*") ac "is-gwmni" ("*subsidiary*") yn unol â'r dehongliad o "subsidiary" a "holding company" yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006(1).

Gwybodaeth am yr unigolyn cyfrifol pan fo'r ceisydd yn sefydliad

24.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r ceisydd yn sefydliad ac, fel y cyfryw, wedi penodi unigolyn cyfrifol.

(2) Enw llawn (ac unrhyw enw arall ac enw blaenorol) yr unigolyn cyfrifol, ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad a'i rif teleffon.

(3) Manylion am gymwysterau proffesiynol neu dechnegol yr unigolyn cyfrifol a'i brofiad, i'r graddau y mae'r cyfryw gymwysterau a phrofiad yn berthnasol i—

- (a) darparu gofal dydd i blant o dan wyth mlwydd oed,
- (b) pan fo paragraff 25 yn gymwys, goruchwylio'r ddarpariaeth o ofal dydd i blant o dan wyth mlwydd oed.

reason why the employment or position ended;

- (c) the name and address of any present employer and, where relevant, of any previous employers;
- (d) the name and address of two referees—
 - (i) who are not relatives of the applicant,
 - (ii) each of whom is able to provide a reference as to the applicant's competence to look after children under the age of eight, and
 - (iii) where possible, one of whom is the applicant's most recent employer.

Information about the applicant: an organisation

23.—(1) This paragraph applies where the applicant is an organisation.

(2) The name, address and telephone number of the applicant.

(3) In the case of an applicant organisation which is a company, its registered office or the principal office of the company, its registered number and, in the case of an applicant organisation which is a registered charity, its registered charity number.

(4) If the organisation is a subsidiary of a holding company, the name and address of the holding company, its registered or principal office and any other subsidiary of that holding company.

(5) In this Schedule the words "holding company" ("*holding company*") and "subsidiary" ("*subsidiary*") are to be interpreted in accordance with section 1159 of the Companies Act 2006(1).

Information about the responsible individual where the applicant is an organisation

24.—(1) This paragraph applies where the applicant is an organisation and as such has nominated a responsible individual.

(2) The full name (and any alias and former name), date of birth, address and telephone number of the responsible individual.

(3) Details of the professional or technical qualifications of the responsible individual and their experience, so far as such qualifications are relevant to—

- (a) the provision of day care for children under the age of eight, or
- (b) where paragraph 25 applies, the supervision of the provision of day care for children under the age of eight.

(1) 2006 p.46.

(1) 2006 c.46.

(4) Ac eithrio pan fo paragraff 25 yn gymwys, manylion am hanes cyflogaeth yr unigolyn cyfrifol—

- (a) hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth;
- (b) os oedd unrhyw gyflogaeth neu swydd flaenorol yn cynnwys gweithio gyda phlant, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd honno i ben;
- (c) enw a chyfeiriad unrhyw gyflogwr presennol, a phan fo'n berthnasol, unrhyw gyflogwyr blaenorol;
- (ch) enwau a chyfeiriadau dau ganolwr —
 - (i) nad ydynt yn berthnasau i'r unigolyn cyfrifol,
 - (ii) sydd ill dau yn alluog i ddarparu geirda mewn perthynas â chymhwysedd yr unigolyn cyfrifol i ofalu am blant o dan wyth mlwydd oed; ac
 - (iii) un ohonynt, os yw'n bosibl, yn gyflogwr diweddaraf yr unigolyn cyfrifol.

Gwybodaeth am y person â chyfrifoldeb

25.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo person â chyfrifoldeb wedi ei benodi.

(2) Enw llawn (ac unrhyw enw arall neu enw blaenorol) y person â chyfrifoldeb, ac os nad y person hwnnw hefyd yw'r ceisydd neu'r unigolyn cyfrifol, ei ddyddiad geni, ei gyfeiriad a'i rif teleffon.

(3) Manylion cymwysterau proffesiynol neu dechnegol y person â chyfrifoldeb a'i brofiad, i'r graddau y mae'r cyfryw gymwysterau a phrofiad yn berthnasol i ddarparu gofal dydd i blant o dan wyth mlwydd oed.

(4) Manylion hanes cyflogaeth y ceisydd, gan gynnwys—

- (a) hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth;
- (b) os oedd unrhyw gyflogaeth neu swydd flaenorol yn cynnwys gweithio gyda phlant, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd honno i ben;
- (c) enw a chyfeiriad unrhyw gyflogwr presennol, a phan fo'n berthnasol, unrhyw gyflogwyr blaenorol;
- (ch) enwau a chyfeiriadau dau ganolwr —
 - (i) nad ydynt yn berthnasau i'r person,
 - (ii) sydd ill dau yn alluog i ddarparu geirda mewn perthynas â chymhwysedd y person

(4) Except where paragraph 25 applies, details of the responsible individual's employment history, including—

- (a) a full employment history, together with a satisfactory written explanation of any gaps in employment;
- (b) where any previous employment or position has involved work with children, so far as reasonably practicable, verification of the reason why the employment or position ended;
- (c) the name and address of any present employer and, where relevant, of any previous employers;
- (d) the name and address of two referees—
 - (i) who are not relatives of the responsible individual,
 - (ii) each of whom is able to provide a reference as to the responsible individual's competence to look after children under the age of eight, and
 - (iii) where possible, one of whom is the responsible individual's most recent employer.

Information about the person in charge

25.—(1) This paragraph applies where a person in charge has been appointed.

(2) The full name (and any alias and former name) of the person in charge and, except where that person is also either the applicant or the responsible individual, their date of birth, address and telephone number.

(3) Details of the person's professional or technical qualifications and experience, in so far as such qualifications and experience are relevant to the provision of day care for children under the age of eight.

(4) Details of the person's employment history, including—

- (a) a full employment history, together with a satisfactory written explanation of any gaps in employment;
- (b) where any previous employment or position has involved work with children, so far as reasonably practicable, verification of the reason why the employment or position ended;
- (c) the name and address of any present employer and, where relevant, of any previous employers;
- (d) the name and address of two referees—
 - (i) who are not relatives of the person,
 - (ii) each of whom is able to provide a reference as to the person's competence to look after

i ofalu am blant o dan wyth mlwydd oed;
ac

- (iii) un ohonynt, os yw'n bosibl, yn gyflogwr diweddaraf y person.

Gwybodaeth am y gofal a ddarperir

26. Enw, cyfeiriad, rhif teleffon, rhif ffacsimile (os oes un), a chyfeiriad post electronig (os oes un) y fangre lle y bwriedir gofalu am y plant ("y fangre") ynghyd â disgrifiad o'r cyfleusterau a ddarperir neu sydd i'w darparu i blant y gofelir amdanynt, gan gynnwys datganiad pa un a yw'r fangre wedi ei hadeiladu'n bwrpasol neu wedi ei throsi i'w defnyddio fel mangre lle y gofelir am blant.

27. Y datganiad o ddiben.

28. Yr oriau arfaethedig y dymuna'r ceisydd gael ei gofrestru ar eu cyfer fel darparwydd gofal dydd i blant.

29. Disgrifiad o'r ardal y lleolir y fangre ynddi, a manylion ynghylch mynediad i'r fangre.

30. Datganiad ynglŷn â'r trefniadau diogelwch, gan gynnwys trefniadau at ddibenion –

- (a) diogelu mynediad at wybodaeth a gedwir yn y fangre; a
- (b) cyfyngu ar fynediad i mewn i'r fangre o fangreoedd cyfagos, neu os yw'r fangre yn rhan o adeilad, o rannau eraill o'r adeilad.

31. Pa un a oes busnes neu weithgarwch arall a gynhelir, neu a fydd yn cael ei gynnal, yn y fangre yr un pryd ag y gofelir am blant yno o dan y cofrestrriad arfaethedig, ac os felly, manylion y cyfryw fusnes neu weithgarwch.

32. Nifer y plant y bwriedir darparu gofal iddynt, a'u hoedrannau.

Gwybodaeth am bersonau eraill: staff

33. Mewn perthynas ag unrhyw berson, ac eithrio'r unigolyn cyfrifol neu, os yw'n berthnasol, y person â chyfrifoldeb, sy'n gofalu neu sydd i ofalu am y plant y darperir neu y bwriedir darparu gofal dydd iddynt–

- (a) enw'r person (ac unrhyw enw arall ac enw blaenorol) a'i ddyddiad geni;
- (b) dyletswyddau a chyfrifoldebau'r person mewn perthynas â gwaith y person hwnnw.

34. Mewn perthynas ag unrhyw berson, ac eithrio'r unigolyn cyfrifol neu, os yw'n berthnasol, y person â chyfrifoldeb, sy'n gofalu neu sydd i ofalu am y plant y darperir neu y bwriedir darparu gofal dydd iddynt–

- (a) pa un a yw'r person yn preswyllo, neu a fwriedir iddo breswyllo yn y fangre ai peidio;
- (b) os yw'r person yn berthynas i'r ceisydd, natur y berthynas honno gyda'r ceisydd;

children under the age of eight, and

- (iii) where possible, one of whom is the person's most recent employer.

Information about the care provided

26. The name, address, telephone number, facsimile number (if any), electronic mail address (if any) of the premises at which the children are to be looked after ("the premises"), together with a description of the facilities provided or to be provided for children to be looked after, including a statement as to whether the premises are purpose-built or have been converted for use as premises at which children are to be looked after.

27. The statement of purpose.

28. The proposed hours for which the applicant wishes to register as a provider of day care for children.

29. A description of the area in which the premises are located and details as to the access to the premises.

30. A statement as to the security arrangements, including arrangements for the purposes of–

- (a) safeguarding access to information held at the premises; and
- (b) restricting access from adjacent premises, or when the premises form part of a building, from other parts of the building.

31. Where any other business or activity is, or will be, carried on in the premises at the same time as children are looked after there under the proposed registration and, if so, details of such business or activity.

32. The number of children for whom care is to be provided, and their ages.

Information about other persons: staff

33. In respect of any person, other than the responsible individual or, where relevant, the person in charge, who cares or is to care for the children for whom the day care is or is to be provided–

- (a) the person's name (and any alias and former name) and date of birth;
- (b) the person's duties and responsibilities in relation to that person's work.

34. In respect of any person, other than the responsible individual or, where relevant, the person in charge, who cares or is to care for the children for whom the day care is or is to be provided–

- (a) whether the person is, or is intended to be, resident in the premises;
- (b) if the person is a relative of the applicant, his or her relationship to the applicant;

- (c) pa un a yw'r person yn gweithio, neu a fwriedir iddo weithio, ar sail amser llawn ynteu ar sail ran-amser, ac os ar sail ran-amser, y nifer o oriau bob wythnos y bwriedir i'r person hwnnw weithio;
- (ch) y dyddiad y dechreuodd y person weithio, neu y bwriedir iddo ddechrau gweithio;
- (d) gwybodaeth ynghylch cymwysterau, profiad a sgiliau'r person hwnnw, i'r graddau y mae'n berthnasol i'r gwaith sydd i'w gyflawni gan y person hwnnw;
- (dd) datganiad gan y ceisydd i'r perwyl ei fod wedi ei fodloni ynghylch dilysrwydd y cymwysterau ac wedi gwirio'r profiad a'r sgiliau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (d);
- (e) datganiad gan y ceisydd ynghylch—
 - (i) addasrwydd cymwysterau'r person ar gyfer y gwaith y bwriedir i'r person ei gyflawni,
 - (ii) pa un a oes gan y person y sgiliau angenrheidiol ai peidio ar gyfer gwaith o'r fath,
 - (iii) addasrwydd y person i weithio gyda phlant o dan wyth mlwydd oed a bod mewn cysylltiad â phlant o'r fath yn rheolaidd;
- (f) datganiad gan y person ynglŷn â chyflwr ei iechyd corfforol a meddyliol;
- (ff) datganiad gan y ceisydd i'r perwyl bod y person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol ar gyfer y gwaith y bwriedir i'r person hwnnw ei gyflawni;
- (g) datganiad gan y ceisydd i gadarnhau pa un a fodlonwyd ef ai peidio ynghylch dilysrwydd hunaniaeth y person, ac yn nodi'r dull a ddefnyddiodd y ceisydd i fodloni ei hunan ynglŷn â hynny, a pha un a yw'r ceisydd wedi cael copi o dystysgrif geni'r person ai peidio;
- (ng) cadarnhad gan y ceisydd bod ganddo ffotograff diweddar o'r person;
- (h) datganiad gan y ceisydd i'r perwyl ei fod wedi cael—
 - (i) dau eirda mewn perthynas â'r person, a bod y ceisydd wedi ei fodloni ynghylch dilysrwydd y geirdaon hynny,
 - (ii) hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau yng nghyflogaeth y person;
 - (iii) os oedd cyflogaeth neu swydd flaenorol y person yn cynnwys gweithio gyda phlant, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd honno i ben.
- (c) whether the person works or is intended to work, on a full-time or on a part-time basis and, if on a part-time basis, the number of hours per week for which it is intended that the person will work;
- (d) the date on which the person commenced, or is intended to commence, work;
- (e) information as to that person's qualifications, experience and skills in so far as it is relevant to the work that the person is to perform;
- (f) a statement by the applicant that he or she is satisfied as to the authenticity of the qualifications, and has verified the experience and skills referred to in sub-paragraph (e);
- (g) a statement by the applicant as to—
 - (i) the suitability as to the person's qualifications for the work that the person is to perform,
 - (ii) whether the person has the skills necessary for such work,
 - (iii) the person's fitness to work and have regular contact with children under the age of eight;
- (h) a statement by the person as to the state of his or her physical and mental health;
- (i) a statement by the applicant that the person is physically and mentally fit for the purposes of the work which that person is to perform;
- (j) a statement by the applicant as to whether he or she is satisfied as the person's identity, the means by which the applicant has satisfied himself or herself and whether the applicant has obtained a copy of the person's birth certificate;
- (k) confirmation by the applicant that he or she has a recent photograph of the person;
- (l) a statement by the applicant that he or she has obtained—
 - (i) two references relating to the person and that the applicant is satisfied as to the authenticity of those references,
 - (ii) a full employment history, together with a satisfactory written explanation of any gaps in the person's employment,
 - (iii) where the person's previous employment or position has involved work with children, so far as reasonably practicable, verification of the reason why the employment or position ended.

Gwybodaeth ynghylch personau eraill: pob person arall

35. Enw llawn (ac unrhyw enw arall ac enw blaenorol), dyddiad geni a chyfeiriad pob person (ac eithrio'r ceisydd a pherson a grybwyllir ym mharagraffau 24, 25 a 33) sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed, yn gweithio yn y fangre berthnasol ac yn dod, neu'n debygol o ddod, i gysylltiad rheolaidd â phlant perthnasol.

36. At ddibenion paragraff 35 mae person sy'n gweithio yn y fangre berthnasol yn cynnwys person sy'n gweithio ar sail wirfoddol.

37. Enw llawn (ac unrhyw enw arall ac enw blaenorol), a dyddiad geni pob person sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed, yn byw yn y fangre berthnasol ac yn dod, neu'n debygol o ddod, i gysylltiad rheolaidd â phlant perthnasol.

Y dogfennau sydd i'w cyflenwi

38. Tystysgrif geni'r ceisydd, a phan fo'n berthnasol tystysgrifau geni'r unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb.

39. Prawf o hunaniaeth y ceisydd, a phan fo'n briodol, o hunaniaeth yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb gan gynnwys ffotograffau diweddar.

40. Tystysgrifau neu dystiolaeth addas arall o gymwysterau proffesiynol neu dechnegol y ceisydd, a phan fo'n briodol, yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb, i'r graddau y mae cymwysterau o'r fath yn berthnasol i ofalu am blant sydd o dan wyth mlwydd oed.

41. Tystysgrif o yswiriant yr ymgeisydd rhag atebolrwydd y gellid ei achosi i'r person hwnnw mewn perthynas â marwolaeth, anaf, atebolrwydd cyhoeddus, difrod neu golled arall mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth arfaethedig o ofal dydd.

42.–(1) Datganiad ysgrifenedig gan y ceisydd yn cadarnhau–

- (a) mewn perthynas â phob person, ac eithrio'r ceisydd, sy'n gofalu, neu y bwriedir iddo ofalu, am y plant y darperir gofal dydd iddynt, bod–
 - (i) tystysgrif cofnod troseddol fanylach wedi ei dyroddi; a
 - (ii) cofrestriad gydag ADA wedi ei gwblhau a bod y ceisydd wedi cael rhif cofrestru ADA y person hwnnw; a
- (b) y bydd y ceisydd yn rhoi'r tystysgrifau a ddyroddwyd felly, a'r rhifau cofrestru a ddyrannwyd, ar gael i'w harchwilio gan Weinidogion Cymru os gofynnir amdanynt gan Weinidogion Cymru.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), datganiad

Information about other persons: all other persons

35. The full name (and any alias and former name), date of birth and address of every person (other than the applicant and a person mentioned in paragraphs 24, 25 and 33) who has attained the age of 16 and who works on the relevant premises and who has, or is likely to have regular contact with relevant children.

36. For the purposes of paragraph 35 person who works on the relevant premises includes a person who works on a voluntary basis.

37. The full name (and any alias and former name) and date of birth of every person who has attained the age of 16 years and who lives on the relevant premises and who has, or is likely to have regular contact with relevant children.

Documents to be supplied

38. The birth certificate of the applicant and, where appropriate, that of the responsible individual and the person in charge.

39. Proof of the identity of the applicant and, where appropriate, the responsible individual and the person in charge, including a recent photograph.

40. Certificates or other suitable evidence relating to the professional or technical qualifications of the applicant and, where appropriate, the responsible individual and the person in charge, so far as such qualifications are relevant to looking after children under the age of eight.

41. A certificate of insurance of the applicant in respect of liability which may be incurred by that person in respect of death, injury, public liability, damage or other loss occurring in relation to the proposed provision of day care.

42.–(1) A written statement made by the applicant confirming–

- (a) in respect of every person, other than the applicant, who looks after or is intended to look after the children for whom the day care is provided, that–
 - (i) an enhanced criminal record certificate has been issued; and
 - (ii) where appropriate, registration with the ISA has been completed and that the applicant has that person's ISA registration number, and
- (b) that the applicant will make the certificates so issued and the registration numbers assigned available for inspection by the Welsh Ministers, if the Welsh Ministers so require.

(2) Subject to paragraph (3), a written statement

ysgrifenedig gan y ceisydd yn cadarnhau—

- (a) mewn perthynas â phob person a grybwyllir ym mharagraffau 35 i 37, bod-
 - (i) tystysgrif cofnod troseddol fanylach wedi ei dyroddi; a
 - (ii) pan fo'n briodol, cofrestriad gydag ADA wedi ei gwblhau a bod y ceisydd wedi cael rhif cofrestru ADA y person hwnnw; a
- (b) y bydd y ceisydd yn rhoi'r tystysgrifau a ddyroddwyd felly, a'r rhifau cofrestru a ddyrannwyd, ar gael i'w harchwilio gan Weinidogion Cymru os gofynnir amdanynt gan Weinidogion Cymru.

(3) Pan fo rheoliad 20(5) yn gymwys, ac nad oes awdurdod gan y ceisydd i gael y cyfryw wybodaeth neu ddogfen, datganiad ysgrifenedig gan y ceisydd y caiff y personau a grybwyllir ym mharagraffau 35 i 37 eu goruchwilio'n briodol ar bob achlysur pan fo unrhyw berson o'r fath yn dod i gysylltiad â phlentyn neu blant perthnasol.

43. Os yw'r ceisydd yn sefydliad, copïau o'r ddau adroddiad blynyddol diwethaf yr oedd yn ofynnol eu paratoi.

44. Pan fo'r sefydliad yn is-gwmni i gwmni daliannol, y ddau adroddiad blynyddol diwethaf (os oes rhai) ar gyfer y cwmni daliannol ac unrhyw is-gwmni arall y cwmni daliannol hwnnw.

45. Cyfrifon blynyddol diwethaf y sefydliad, os oes rhai.

46.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), adroddiad gan ymarferydd meddygol cofrestredig ynglŷn â pha un a yw'r ceisydd, a phan fo'n briodol, yr unigolyn cyfrifol a'r person â chyfrifoldeb yn ffit ai peidio yn gorfforol ac yn feddyliol i ofalu am blant o dan wyth mlwydd oed.

(2) Os nad oes modd i berson a grybwyllir yn is-baragraff (1) gael yr adroddiad y cyfeirir ato yn yr is-baragraff hwnnw, datganiad gan y person hwnnw ynglŷn â chyflwr ei iechyd corfforol a meddyliol.

ATODLEN 3

Rheoliad 30

Y COFNODION SYDD I'W CYNNAL

1. Enw, cyfeiriad a rhif teleffon y person cofrestredig, yr unigolyn cyfrifol a phob person arall sy'n byw, yn gweithio neu a gyflogir yn y fangre berthnasol.

made by the applicant confirming—

- (a) in respect of every person who is mentioned in paragraphs 35 to 37 that—
 - (i) an enhanced criminal record certificate has been issued; and
 - (ii) where appropriate, registration with the ISA has been completed and that the applicant has that person's ISA registration number, and
- (b) that the applicant will make the certificates so issued and the registration numbers assigned available for inspection by the Welsh Ministers, if the Welsh Ministers so require.

(3) Where regulation 20(5) applies and the applicant has no authority to obtain such information or document, a written statement by the applicant that those persons mentioned in paragraphs 35 to 37 will be appropriately supervised at all times when any such person is in contact with a relevant child or children.

43. Where the applicant is an organisation, copies of the last two annual reports it was required to produce.

44. Where the organisation is a subsidiary of a holding company, the last two annual reports (if any) of the holding company and of any other subsidiary of that holding company.

45. The last annual accounts of the organisation, if any.

46.—(1) Subject to sub-paragraph (2), a report by a registered medical practitioner as to whether the applicant and, where appropriate, the responsible individual and the person in charge, is physically and mentally fit to look after children under the age of eight.

(2) Where a person mentioned in sub-paragraph (1) is unable to obtain the report referred to in that sub-paragraph, a statement by that person as to the state of his or her physical and mental health.

SCHEDULE 3

Regulation 30

RECORDS TO BE MAINTAINED

1. The name, address and telephone number of the registered person, the responsible individual and every other person living, working or employed on the relevant premises.

2. Enw, cyfeiriad cartref a rhif teleffon unrhyw berson arall a ddaw i gysylltiad â'r plant perthnasol yn rheolaidd heb oruchwyliaeth.

3. Enw, cyfeiriad cartref, dyddiad geni a rhyw pob plentyn perthnasol.

4. Mewn perthynas â phob plentyn perthnasol, enw, cyfeiriad a rhif teleffon rhiant.

5. Mewn perthynas â phob plentyn perthnasol, enw a chyfeiriad yr ymarferydd meddygol cofrestredig y cofrestrwyd y plentyn gydag ef.

6. Cofnod dyddiol o enwau'r plant perthnasol, oriau eu presenoldeb ac enwau'r personau a fu'n gofalu amdanynt.

7. Cofnod o ddamweiniau, salwch difrifol a digwyddiadau arwyddocaol eraill a ddigwyddodd yn fangre berthnasol ac a effeithiodd ar les plant perthnasol.

8. Cofnod o unrhyw gynnyrch meddyginiaethol a gafodd ei weini i blentyn perthnasol ar y fangre berthnasol, gan gynnwys y dyddiad a'r amgylchiadau a chan bwy y cafodd y feddyginiaeth ei gweini, a chan gynnwys unrhyw gynhyrchion meddyginiaethol y caniateir i'r plentyn eu gweini ei hunan, ynghyd â chofnod o ganiatâd y rhiant.

9. Unrhyw anghenion dietegol arbennig, neu anghenion iechyd arbennig neu alergedd unrhyw blentyn perthnasol.

10. Datganiad o'r weithdrefn sydd i'w dilyn os digwydd tân neu ddamwain.

11. Datganiad o'r weithdrefn sydd i'w dilyn os oes gan riant gwyn ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir gan y person cofrestredig.

12. Datganiad o'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer amddiffyn plant perthnasol, gan gynnwys trefniadau i'w diogelu rhag eu cam-drin neu'u hesgeuluso a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn os gwneir honiadau o gam-drin neu esgeuluso.

13. Datganiad o'r weithdrefn sydd i'w dilyn os digwydd i blentyn perthnasol fynd ar goll neu beidio â chael ei gasglu.

14. Enw, cyfeiriad cartref a rhif teleffon pob aelod cyfredol o'r pwyllgor neu gorff llywodraethu ceisydd sy'n gymdeithas anghorfforedig.

2. The name, home address and telephone number of any other person who will regularly be in unsupervised contact with the relevant children.

3. The name, home address, date of birth and sex of each relevant child.

4. In respect of each relevant child, the name, address and telephone number of a parent.

5. In respect of each relevant child, the name and address of the registered medical practitioner with whom the child is registered.

6. A daily record of the names of the relevant children, their hours of attendance and the names of the persons who looked after them.

7. A record of accidents, serious illness and other significant events occurring on the relevant premises that affected the welfare of relevant children.

8. A record of any medicinal product administered to a relevant child on the relevant premises, including the date and circumstances of its administration, by whom it was administered, including medicinal products that the child is permitted to administer to himself or herself, together with a record of a parent's consent.

9. Any special dietary or health needs or allergy of any relevant child.

10. A statement of the procedure to be followed in the event of a fire or accident.

11. A statement of the procedure to be followed where a parent has a complaint about the service provided by the registered person.

12. A statement of the arrangements in place for the protection of relevant children, including arrangements to safeguard the children from abuse or neglect and procedures to be followed in the event of allegations of abuse or neglect.

13. A statement of the procedure to be followed in the event of a relevant child being lost or not collected.

14. The name, home address and telephone number of every current member of the committee or governing body, where the applicant is an unincorporated association.

DIGWYDDIADAU Y MAE'N OFYNNOL
HYSBYSU GWEINIDOGION CYMRU YN
EU CYLCH

1.–(1) Yn achos gwarchod plant, newid yn y personau canlynol–

- (a) unrhyw berson sy'n gofalu am blant yn y fangre berthnasol, neu
- (b) unrhyw berson sy'n byw neu a gyflogir yn y fangre honno.

(2) Yr wybodaeth sydd i'w darparu yw enw llawn y person newydd ynghyd ag unrhyw enwau blaenorol neu enwau eraill, cyfeiriad ei gartref a'i ddyddiad geni.

2.–(1) Yn achos gofal dydd, newid yn y personau canlynol–

- (a) unrhyw berson â chyfrifoldeb,
- (b) unrhyw un sy'n gofalu am blant yn y fangre berthnasol,
- (c) unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn y fangre honno (ar yr amod nad yw personau i'w trin fel pe baent yn gweithio yn y fangre at ddibenion y paragraff hwn os na wnânt ddim o'u gwaith yn y rhan o'r fangre lle y gofelir am blant, neu os nad ydynt yn gweithio yn y fangre ar yr adeg y gofelir am blant yno), ac
- (ch) pan ddarperir y gofal dydd gan bwyllgor neu gorff corfforaethol neu anghorfforedig, y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd (neu berson sy'n dal swydd gymaradwy yn y sefydliad).

(2) Yr wybodaeth sydd i'w darparu yw enw llawn y person newydd ynghyd ag unrhyw enwau blaenorol neu enwau eraill, cyfeiriad ei gartref a'i ddyddiad geni.

3. Unrhyw newid–

- (a) yn enw neu gyfeiriad cartref y person cofrestredig neu'r personau hynny a ddisgrifir ym mharagraff 1(1) neu baragraff 2(1)(a) i (c); neu
- (b) yn enw neu gyfeiriad y swyddfa gofrestredig neu'r brif swyddfa, pan fo'r person cofrestredig yn sefydliad.

4. Unrhyw newid yn y math o ofal a ddarperir gan y person cofrestredig.

5. Yn achos gofal dydd, unrhyw newid yn y cyfleusterau sydd i'w defnyddio ar gyfer gofal dydd yn y fangre berthnasol, gan gynnwys newidiadau yn nifer yr ystafelloedd, eu swyddogaethau, nifer y toiledau a'r

EVENTS TO BE NOTIFIED TO THE
WELSH MINISTERS

1.–(1) In the case of child minding, a change of the following persons–

- (a) any person looking after children on the relevant premises, or
- (b) any person living or employed on those premises.

(2) The information to be provided is the new person's date of birth, full name and former names or aliases and home address.

2.–(1) In the case of day care, a change of the following persons–

- (a) any person in charge,
- (b) anyone looking after children on the relevant premises,
- (c) anyone living or working on those premises (provided that persons are not to be treated as working on the premises for the purposes of this paragraph if none of their work is done in the part of the premises in which children are looked after or if they do not work on the premises at times when children are looked after there), and
- (d) where the day care is provided by a committee or corporate or unincorporated body, the Chair, Secretary, Treasurer (or person holding a comparable position in the organisation).

(2) The information to be provided is the new person's date of birth, full name, any former names or aliases used by them and home address.

3. Any change–

- (a) in the name or home address of the registered person or those persons described in paragraph 1(1) or paragraph 2(1)(a) to (c); or
- (b) in the name or address of the registered or principal office, where the registered person is an organisation.

4. Any change in the type of care provided by a registered person.

5. In the case of day care, any change in the facilities to be used for day care on the relevant premises, including changes in the number of rooms, their functions, the numbers of lavatories and washbasins,

basnau ymolchi, unrhyw gyfleusterau ar wahân ar gyfer gweithwyr sy'n oedolion a mynediad i'r fangre ar gyfer ceir.

6. Unrhyw newid yn yr oriau pan ddarperir gofal dydd neu pan warchodir plant.

7. Unrhyw achos yn y fangre berthnasol o glefyd heintus sydd, ym marn unrhyw ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n gweld plentyn neu berson arall yn y fangre, yn ddigon difrifol i adrodd amdano felly, neu anaf difrifol, neu salwch difrifol neu farwolaeth unrhyw blentyn neu berson arall yn y fangre.

8. Unrhyw honiadau o niwed difrifol a wnaed i blentyn, gan unrhyw berson sy'n gofalu am blant perthnasol yn y fangre, neu gan unrhyw berson sy'n byw neu'n gweithio, neu a gyflogir, yn y fangre, neu unrhyw gamdriniaeth yr honnir iddi ddigwydd yn y fangre.

9. Unrhyw ddigwyddiad arall a allai effeithio ar addasrwydd y person cofrestredig i ofalu am blant, neu addasrwydd unrhyw berson sy'n byw neu'n gweithio neu a gyflogir yn y fangre, i fod mewn cysylltiad rheolaidd â blant.

10. Unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol arall sy'n debygol o effeithio ar les unrhyw blentyn yn y fangre.

any separate facilities for adult workers and access to the premises for cars.

6. Any change in the hours during which day care or child minding is provided.

7. The outbreak at the relevant premises of any infectious disease, which in the opinion of any registered medical practitioner attending a child or other person at the premises is sufficiently serious to be so notified, or of any serious injury to serious illness of, or the death of, any child or other person on the premises.

8. Any allegations of serious harm to a child committed by any person looking after relevant children at the premises, or by any person living, working or employed on the premises, or any abuse alleged to have taken place on the premises.

9. Any other event which may affect the suitability of the registered person to look after children or the suitability of any person living, working or employed on the premises to be in regular contact with children.

10. Any other significant event which is likely to affect the welfare of any child on the premises.

ATODLEN 5

Rheoliad 47

DIWYGIO RHEOLIADAU 2002

1. Yn rheoliad 2(1) (dehongli) o Reoliadau 2002–

- (a) hepgorer y diffiniad o "the 1989 Act";
- (b) yn y diffiniad o "appropriate office of the National Assembly" hepgorer paragraff (d);
- (c) yn y diffiniad o "organisation" hepgorer y geiriau "and" ymlaen i'r diwedd;
- (ch) hepgorer y diffiniad o "the Part XA Regulations";
- (d) hepgorer y diffiniad o "person in charge";
- (dd) yn y diffiniad o "registration" hepgorer y geiriau "or Part XA" ymlaen i'r diwedd;
- (e) yn y diffiniad o "statement of purpose" hepgorer paragraff (d).

SCHEDULE 5

Regulation 47

AMENDMENT OF THE 2002 REGULATIONS

1. In regulation 2(1) (interpretation) of the 2002 Regulations–

- (a) omit the definition of "the 1989 Act";
- (b) in the definition of "appropriate office of the National Assembly" omit paragraph (d);
- (c) in the definition of "organisation" omit the words "and" to the end;
- (d) omit the definition of "the Part XA Regulations";
- (e) omit the definition of "person in charge";
- (f) in the definition of "registration" omit the words "or Part XA" to the end;
- (g) in the definition of "statement of purpose" omit paragraph (d).

DIRYMIADAU

REVOCATIONS

<i>Colofn 1 Offeryn a ddirywyd</i>	<i>Colofn 2 Cyfeirnod</i>	<i>Colofn 3 Maint y dirymiad</i>	<i>Column 1 Instrument revoked</i>	<i>Column 2 Reference</i>	<i>Column 3 Extent of revocation</i>
Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002	OS 2002/812 (Cy.92)	Y cyfan o'r Rheoliadau	The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2002	SI 2002/812 (W.92)	The whole of the Regulations
Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002	OS 2002/919 (Cy. 107)	Rheoliadau 16, 17 ac 18 ac Atodlenni 7 ac 8.	Registration of Social Care and Independent Health Care (Wales) Regulations 2002	SI 2002/919 (W. 107)	Regulations –16, 17 and 18 and Schedules 7 and 8.
Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2002	OS 2002/2622 (Cy.254)	Rheoliad 6	The Children Act 1989 and the Care Standards Act 2000 (Miscellaneous Regulations) (Amendment) (Wales) Regulations 2002	SI 2002/2622 (W.254)	Regulation 6
Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Diwygio) (Cymru) 2003	OS 2003/2708 (Cy.259)	Y cyfan o'r Rheoliadau	The Child Minding and Day Care (Amendment)(Wales) Regulations 2003	SI 2003/2708 (W.259)	The whole Regulations
Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) 2004	OS 2004/3282 (Cy.285)	Y cyfan o'r Rheoliadau (gydag arbedion)	The Suspension of Day Care Providers and Child Minders (Wales) Regulations 2004	SI 2004/3282 (W.285)	The whole Regulations (with savings)
Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Cymru) 2004	OS 2004/2414 (Cy.222)	Rheoliad 7	The Care Standards Act 2000 and the Children Act 1989 (Amendment of Miscellaneous Regulations) (Wales) Regulations 2004	SI 2004/2414 (W.222)	Regulation 7
Rheoliadau Gofal Dydd (Eu Cymhwyso i Ysgolion) (Cymru) 2005	OS 2005/118 (Cy.10)	Y cyfan o'r Rheoliadau	Day Care (Application to Schools) (Wales) Regulations 2005	SI 2005/118 (W. 10)	The whole Regulations

Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddiol a Chwynion) (Cymru) 2006	OS 2006/3251 (Cy.295)	Rheoliad 4	The Care Standards Act 2000 and the Children Act 1989 (Regulatory Reform and Complaints) (Wales) Regulations 2006	SI 2006/3251 (W.295)	Regulation 4
Rheoliadau Atal Dros Dro Ddarparwyr Gofal Dydd a Gwarchodwyr Plant (Cymru) (Diwygio) 2008	OS 2008/2689 (Cy.238)	Y cyfan o'r Rheoliadau	The Suspension of Day Care Providers and Child Minders (Wales) (Amendment) Regulations 2008	SI 2008/2689 (W.238)	The whole Regulations
Rheoliadau Deddf Plant 1989, Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2009	OS 2009/2541 (Cy.205)	Rheoliad 2	The Children Act 1989, Care Standards Act 2000 and Adoption and Children Act 2002 (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2009	SI 2009/2541 (W.205)	Regulation 2
Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoliadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2009	OS 2009/3265 (Cy.286)	Rheoliad 2	The Children Act 1989 (Amendment of Miscellaneous Regulations) (No.2) (Wales) Regulations 2009	SI 2009/3265 (W.286)	Regulation 2

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

